Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 21ain Rhagfyr, 2021 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Cyfarfod Rhithiol – Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home |
| **PWYNT CYSWLLT** | Annes Siôn<br><br>01286 679490 / cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig L. Siencyn | Arweinydd |
| Dafydd Meurig | Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai |
| Gareth Wyn Griffith | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Nia Wyn Jeffreys | Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Cyllid |
| Catrin Wager | Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol |
| Cemlyn Rees Williams | Aelod Cabinet Addysg |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 30 TACHWEDD 2021 | | | 3 - 9 |
| 6 | RHAGLEN CEFNOGI POBL | Cllr. Dafydd Meurig | Morwena Edwards a Catrin Thomas | 10 - 16 |
| 7 | SEFYLDU CYD-BWYLLGOR CORFFORDIG RHANBARTH GOGLEDD CYMRU | Cyng.  Dyfrig Siencyn | Dafydd Gibbard, Dafydd Edwards ac Iwan Evans | 17 - 26 |
| 8 | ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS YR ADRAN BRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL AC YMGYNGHORIAETH GWYNEDD | Cyng. Catrin Wager | Steffan Jones a Huw Williams | 27 - 42 |
| 9 | ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS YR ADRAN AMGYLCHEDD | Cyng. Gareth Griffith | Dafydd Wyn Williams | 43 - 49 |
| 10 | BLAEN RAGLEN Y CABINET | Cyng. Dyfrig Siencyn | | 50 - 51 |

**Y CABINET DYDD MAWRTH, 30 TACHWEDD 2021**

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig L Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Griffith, Nia Jeffreys, Dilwyn Morgan, Ioan Thomas, Gareth Thomas, Catrin Wager a Cemlyn Williams.

**Hefyd yn bresennol-**
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid) ac Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 6: Steffan Jones (Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol)
Eitem 7: Geraint Owen (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol), Vera Jones (Rheolwyr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Llywela Owain (Uwch Ymgynghorydd Craffu a Iaith) a Meinir Owen (Uwch Ymarferydd Prosiectau).
Eitem 8: Aled Gibbard (Uwch Reolwr Gweithredol – Adnoddau Gofal)
Eitem 9: Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid)
Eitem 10: Catrin Thomas (Pennaeth Cynorthwyol Cefnogi Teuluoedd.

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cyng. Catrin Wager ar eitem 8, mynegwyd ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a bu iddi adael y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 12 TACHWEDD

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2021 fel rhai cywir.

## 6. TIM CYMUNEDAU GLAN A THACLUS

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Catrin Wager

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwywyd sefydlu Tîm Cymunedau Glan a Thaclus i ymgymryd â man waith cynnal ac i ategu gweithgareddau cynnal rheolaidd.

Cymeradwywyd dyraniad o £1,523,730 o’r Gronfa Trawsffurfio er mwyn ariannu’r tîm a’u costau cysylltiedig ar sail un-tro am gyfnod o dair blynedd i gychwyn cyn gynted a phosib.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod glendid stryd wedi bod yn gwyn gyson mae Cynghorwyr wedi bod yn delio ac ef. Eglurwyd fod yr adroddiad hwn yn gofyn am gefnogaeth sylweddol i wella glendid stryd, gan nodi nad yw trigolion eisiau gweld biniau wedi gorlenwi, chwyn ac ysbwriel. Nodwyd mai dyma’r union reswm pam y bu i lendid gael ei nodi fel un o flaenoriaethau’r Cyngor.

Mynegwyd fod y cam cyntaf o ymgysylltu gyda ardaloedd wedi ei wneud ac amlygwyd y sylwadau oedd wedi ei godi ar draws y sir. Eglurwyd fod yr adran yn gwneud gwaith o’r math hwn yn barod ond fod y gwasanaeth wedi ei dorri fel arbediad dros y blynyddoedd. Ond eglurwyd rhwng toriadau a addasiadau i’r adran o ganlyniad i’r pandemig fod angen ei flaenoriaethu.

Nodwyd fod yr arian ar gyfer creu 5 tîm a fydd yn dod i mewn i ardal i wneud gwaith cynnal a chadw, ac i roi sglein dwy chwynnu, codi man ysbwriel, glanhau a pheintio. Eglurwyd y bydd y timau yma yn ymatebol, adweithiol ac yn gallu wynebu pethau yn dymhorol. Mynegwyd y bydd cyfathrebu yn hanfodol i sicrhau fod Cynghorwyr a Cynghorau Cymuned yn ymwybodol pryd fydd y tîm yn eu hardal.

Pwysleisiwyd fod tystiolaeth yn amlygu pwysigrwydd y cynllun hwn a sydd yn symud i ddatblygu a buddsoddi mewn gwelliannau i gymunedau Gwynedd,

Sylwadau’n codi o’r drafodaeth

- Croesawyd yr adroddiad gan nodi mae glendid stryd yw y mater sy’n codi yn fwyaf cyson i Gynghorwyr.
- Mynegwyd cefnogaeth gan nodi os bydd cymunedau yn lân a thaclus fod pobl am ddangos mwy o barch i’r cymunedau yn drigolion ac yn dwristiaid.
- Nodwyd fod gan y trigolion a’r cyhoedd cyfrifoldeb i gadw eu cymunedau yn daclus hefyd, ond fod angen sicrhau cyfathrebu gyda Cynghorau Tref yno gystal.
- Nodwyd yr angen i gael cyd-weithrediad cymunedau yn ogystal ac i wneud gwaith paratoi o flaen llaw.

## 7. ACHOS BUSNES HUNANIAITH

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Nia Jeffreys

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwyo ymrwymiad £203,880 o'r Gronfa Trawsffurfio er mwyn ariannu swydd ychwanegol am gyfnod 4 blynedd i reoli'r gwasanaeth a gwella sefyllfa Hunaniaith fel uned o fewn y Cyngor am y tro, gan ganolbwyntio ar ddenu grantiau newydd a chodi incwm, gwella'r cyswllt cymunedol, denu mwy o aelodau cymunedol i'r Grŵp Strategol a gweithio tuag at fod yn endid annibynnol.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad hwn yn un technegol sydd yn gosod seiliau achos busnes i wireddu deheuad a gweledigaeth i Hunaniaith i fod yn gorff annibynnol i'r dyfodol. Amlygwyd pwysigrwydd fod y Gymraeg yn cael ei defnyddio fel iaith gymunedol.

Eglurwyd fod creu yr achos busnes hwn yn gam ymlaen yn y daith, a drwy benodi Prif Swyddog i arwain y gwaith hwn bydd yn gyfle i ddenu grantiau ynghyd a sefydlu y corff i fod yn endid annibynnol. Diolchwyd i swyddogion am eu gwaith i geisio gwireddu'r weledigaeth.

Nododd Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol fod yr adroddiad yn gydnabyddiaeth o waith sydd wedi ei wneud yn dilyn penderfyniad y Cabinet ac ei fod yn fodd ymarferol o sefydlu Hunaniaith fel endid annibynnol gan roi amser i sicrhau ffynonellau ariannu tymor hir sefydlog.

Eglurodd yr Uwch Ymarferydd Craffu a Iaith fod Cadeirydd Hunaniaith yn gefnogol i'r adroddiad ac yn parhau i gredu y byddai Hunaniaith yn well fel endid annibynnol ond fod yn rhaid gwneud y gwaith gam wrth gam ac ei fod y penderfyniad hwn yn rhan o'r daith.

Ychwanegodd yr Uwch Ymarferydd Prosiectau ar hyn o bryd nad oes sicrwydd grantiau fel endid annibynnol ac felly o ganlyniad ei bod yn well syniad i gael Prif Swyddog i ddatblygu ac i sicrhau sefydlogrwydd grantiau.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd cefnogaeth i'r adroddiad gan bwysleisio ei bod yn gyfle i Hunaniaith wneud gwaith paratoi ac i osod y ffordd ymlaen gan chwilio am grantiau i gyflawni y weledigaeth honno. Mynegwyd na ddylid cael ei arwain gan grantiau.
- Nodwyd mai cadernid Gwynedd yw ei hiaith ac eglurwyd mai dyna pam o bosib nad yw Hunaniaith yn endid unigol. Ond pwysleisiwyd fod yr iaith dan warchae yma yng Ngwynedd fel Cymru gyfan ac felly fod y penodi Prif Swyddog yn arwain y gwaith ac yn sicrhau fod mwy o waith yn cael ei wneud yn y cymunedau.

**8. CYNLLUN AWTISTIAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dilwyn Morgan

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwywyd y Cynllun Awtistiaeth 2021-23.

Cytunwyd i ragfarnu'r broses 'bidiau' blynyddol a chaniatáu 'bid' am £48,000 o gyllideb refeniw parhaol er mwyn ariannu swydd Cydlynydd Awtistiaeth a 2 swydd Gwaith Cymdeithasol ar gost flynyddol o £144,000 gyda'r Cyngor yn cyfrannu traean o'r gost.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y Cynllun Awtistiaeth yma yn un o brosiectau Cynllun y Cyngor ynghyd a bod yn un o gynlluniau gwella'r adran. Nodwyd fod hwn yn brosiect partneriaeth rhwng y Cyngor, Gwasanaeth Iechyd a Chyngor Mon. Pwysleisiwyd er y heriau sydd wedi wynebu y tri partner yn ystod y pandemig fod cyflwyno'r adroddiad hwn yn dangos ei bwysigrwydd.

Mynegwyd fod y daith wedi bod yn hir, er na ddaw hi byth i ben gan ei bod yn strategaeth fyw a fydd yn ymateb ac yn addasu yn gyson. Nodwyd fod y Cynllun wedi bod o flaen y Pwyllgor Craffu Gofal a oedd yn hynod gefnogol ac wedi ymrwymo i roi mewnbwn i'r adolygu cyson.

Ychwanegodd yr Uwch Reolwr Gweithredol fod y cynllun hwn yn flaenoriaeth a cydnabuwyd fod y gwaith wedi ei ddylanwadau gan gwyn a wnaethpwyd am yr adran a anfonwyd ymlaen at yr Ombwdsmon. Eglurwyd fod yr adran wedi penodi ymgynghorydd allanol i edrych ar yr adroddiadau gan yr Ombwdsmon ac i edrych ar y gwaith ac fod y mewnbwn yma wedi bod yn allweddol i ddatblygu'r cynllun. Tynnwyd sylw at y Cod Ymarfer a gyflwynwyd ym mis Medi gan nodi fod y cynllun yn cyd-fynd a'r Cod Ymarfer hwn.

Pwysleisiwyd mai dechrau'r daith yw'r cynllun hwn ac y bydd yn gyfle i adnabod bylchau ac i symud ymlaen yn fwy cadarn. Nodwyd y bydd angen gwneud gwaith proffilio sydd yn anodd gan fod gwybodaeth yn cael ei gadw ar draws y bartneriaeth. Eglurwyd y bydd Bwrdd Awtistiaeth yn cael ei greu er mwyn adolygu'r gwaith i'r dyfodol.

Eglurwyd fod gweithrediadau wedi ei selio ar 3 cam penodol sef sefydlu'r Bwrdd, i benodi mwy o staff er mwyn asesu ynghynt ynghyd a chynnig hyfforddiant ar draws gwasanaethau, ac i fagu perthynas gyda Gwasanaethau Awtistiaeth yn rhanbarthol a chenedlaethol i adolygu'r gwaith i'r dyfodol. Pwysleisiwyd mai dechrau'r daith yw'r ddogfen hon ac y bydd yn parhau i ddatblygu.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Croesawyd yr adroddiad gan amlygu ei bod y cynllun hon yn draws-adrannol gan weithio yn agos gyda'r adran Addysg.

**9. NEWID TREFNIADAU CYMERADWYO SYMIAU HYD AT £100,000 O'R GRONFA TRAWSFFURFIO**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Ioan Thomas

**PENDERFYNIAD**

Er mwyn hwyluso trefniadau mwy ystwyth ar gyfer gwario, penderfynwyd i ddirprwyo grym i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor a'r Pennaeth Cyllid, i ymrwymo symiau hyd at £100,000 o'r Gronfa Trawsffurfio a/neu'r Gronfa Trefniadau Adfer yn sgil Covid-19.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y Gronfa Trawsffurfio yn cael ei defnyddio i gyllido blaenoriaethau'r Cyngor sydd wedi'i cynnwys yng Nghynllun y Cyngor. Eglurwyd fod y gronfa yn cefnogi gwaith trawsffurfio ac o natur un tro.

Mynegwyd yn ôl yn 2013, yn wyneb cyfnod ariannol heriol penderfynwyd newid trefn cymeradwyo gwariant o'r Gronfa Trawsffurfio, gyda pob ymrwymiad o'r Gronfa yn derbyn cymeradwyaeth y Cabinet. Bellach, nodwyd, o ystyried maint y gronfa awgrymir y dylid sefydlu trefn ddiwygiedig oherwydd yr angen i symud ymlaen i gyflawni blaenoriaethau heb unrhyw oediad gan gyfarch anghenion gwario sydyn.

Neilltuwyd dros £4miliwn yn y Gronfa Trawsffurfio yn ystod 2021/22, sydd yn golygu fod balans y gronfa yn £12.5miliwn ar 31 Mawrth 2021. Eglurwyd fod Cronfa Trefniadau Adfer yn sgil Covid-19 wedi ei sefydlu wrth gau cyfrifon, a neilltuwyd £2.5miliwn i'r gronfa i gynorthwyo'r Cyngor i adfer yn dilyn yr argyfwng.

Eglurwyd fod gwariant cyson wedi bod yn cael ei wneud yn flynyddol o'r Gronfa Trawsffurfio yn unol a blaenoriaethau'r Cyngor. Rhwng 2016/17 a 2020/21 nodwyd fod gwariant o dros £7miliwn. Mynegwyd fod gwerth £5.4 miliwn o ymrwymiadau cyfredol yn erbyn y Gronfa Trawsffurfio sydd yn cynnwys ymrwymiadau o dros £5miliwn cyn blwyddyn ariannol 2021/22. Golyga hyn fod yna adnoddau o £7.2miliwn ar gael i bwrpas blaenoriaethau Cynllun y Cyngor.

Nodwyd o ran ymrwymiadau o'r Gronfa Trefniadau Adfer yn Sgîl Covid19 fod ymrwymiadau o £430,000 sy'n cynnwys £130,000 ar gyfer uwchraddio technoleg i alluogi mynychu cyfarfodydd o bell. Pwysleisiwyd y bydd cymeradwyaeth y Cabinet yn parhau yn ofynnol ar gyfer blaenoriaethau sydd uwchlaw y trothwy o £100,000.

**10. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS YR ADRAN BLANT A CEFNOGI TEULUOEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dilwyn Morgan

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan a nodi fod yr adran yn cynnal cyfarfodydd herio perfformiad misol cadarnhaol sydd yn esblygu yn gyson. Amlygwyd pryderon am gapasiti'r adran i allu mewnbynnu gwybodaeth yn fisol ond eglurwyd mai y cam nesaf fydd i'r rheolwyr berchnogi'r adroddiadau misol. Diolchwyd yn ogystal i'r aelodau o'r Pwyllgor Craffu Gofal sydd yn mynychu'r cyfarfodydd herio perfformiad.

Nodwyd fod cynlluniau blaenoriaeth yr adran sydd i'w gweld yng Nghynllun y Cyngor yn parhau i symud ymlaen gan amlygu Strategaeth cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd. Fodd bynnag, pwysleisiwyd fod heria staffio i'w gweld ar draws yr adran ac wedi ei amlygu yn y gofrestr risg. Nodwyd er mwyn mynd i'r afael ar her fod gwaith yn mynd rhagddo ar y cyd gyda'r adran Cefnogaeth Gorfforaethol.

Eglurwyd nad yw'r elfen am Strategaeth Awtistiaeth yn darllen yn hawdd ond fod y cynllun wedi symud ymlaen ar ôl ysgrifennu'r adroddiad ac bellach wedi ei drafod yn y cyfarfod hwn. Mynegwyd er fod capasiti y gweithlu yn un o brif bryderon yr adran fod yr adran ar y cyfan yn perfformio yn dda iawn.

Ychwanegodd y Pennaeth Cynorthwyol er y darlun o heriau staffio fod yr adran wedi parhau i lwyddo i gynnal a diogelu plant gan sicrhau pan yn gallu eu bod yn aros adref gyda'i teuluoedd.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod pryder am y maes yn benodol o ran pwysau ar staff. Diolchwyd i'r staff am eu gwaith caled ac eu gallu i barhau i weithredu drwy'r cyfnod anodd hwn. Amlygwyd fod perfformiad da gan y staff sydd dan bwysau cyson. Amlygwyd perthynas dda sydd gan yr adran a Prifysgol Bangor ar Cwrs MA mewn Gwasanaeth Cymdeithasol gan egluro sydd y cydweithio hwn yn parhau i sicrhau fod y Cyngor yn denu niferoedd da o weithwyr cymdeithasol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Llongyfarchwyd yr adran am eu gwaith i sicrhau lefel y gwasanaeth ond holwyd am ba mor hir y bydd modd i'r adran barhau gyda prinder staff. Nodwyd nad yw'r ateb yn hawdd ond fod y Cyngor dros y blynyddoedd wedi bod yn hynod dda am recriwtio i'r maes. Er hyn mynegwyd fod nifer o staff yn gweld y swydd yn gynyddol heriol ac fod angen sicrhau nad yw staff yn cael gormod o bwysau. Eglurwyd fod angen yn genedlaethol i'r sector gael gwell proffil a cydnabyddiaeth am y gwaith maent yn ei wneud.
- Diolchwyd i'r staff am eu gwaith nid yn unig am y gwaith cyflawni ond am adroddiad perfformiad darllenadwy a dealladwy yn ogystal.

**11. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS YR ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dafydd Meurig

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan dynnu sylw penodol at y cynlluniau sydd i'w gweld yng Nghynllun y Cyngor. Nodwyd o ran cynllun Darpariaeth gofal addas a chynaliadwy i'r dyfodol eu bod yn hapus gyda'r gwaith sydd wedi ei wneud er fod llithriad wedi bod yn agor rhai adnoddau penodol fel uned dementia yn Llan Ffestiniog. Eglurwyd fod heriau wedi ei wynebu yn Nolgellau o ran dod o hyd i diroedd addas i'w ddatblygu. Er hyn, nodwyd fod y daith yn parhau a mynegwyd fod bid yn dod i mewn i gael staff ychwanegol i fonitro cartrefi gofal ar draws y sir i sicrhau ansawdd a cefnogaeth ddigonol i ddarparwyr.

Eglurwyd fod y gwaith o ail ddylunio gwasanaeth gofal ychydig ar ei hol hi o ganlyniad i Covid-19. Nodwyd fod yr adran yn gobeithio mynd i ail dendro ym mis Ionawr gan obeithio cael contractau newydd gyda darparwyr erbyn yr haf.

Mynegwyd o ran y cynllun Gweithlu a Recriwtio pwysleisiwyd fod y cynllun yn un anodd i'w daclo. Esboniwyd er fod y tabl perfformiad yn arddangos fel gwyrdd nid dyma'r llun yn llawn. Nodwyd fod yr ymgyrch recriwtio yn parhau ac fod angen ail edrych ar sur i recriwtio pobl yn lleol, gan fod prinder staff wedi arwain at unigolion yn parhau yn yr ysbyty gan nad oes gofal ar gael.

O ran perfformiad nodwyd nad yw'r adran wedi llwyddo i gyrraedd sefyllfa ble mae modd cael cyfarfodydd misol, ac amlygwyd heriau ariannol o ran dod o hyd i arbedion.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd am yr adroddiad ac am dynnu sylw at yr elfen o recriwtio staff. Eglurwyd fod y sefyllfa i'w gweld ar draws y sir ac pwysleisiwyd yr angen i edrych ar y mater.
- Eglurwyd fod gwaith yn mynd yn ei blaen i adolygu y cynlluniau arbedion ar draws yr holl adrannau gan fod nifer yn cael her i'w gwireddu. Nodwyd fod angen edrych ar yr holl gynlluniau ac i edrych sut i'w cyflawni neu am chwilio am gynlluniau amgen.
- Diolchwyd i'r gofalwyr am eu gwaith a nodwyd fod angen i Lywodraeth Cymru a Prydain sicrhau cyllideb fel bod modd talu gofalwyr yn deg am eu gwaith sydd yn gwneud gwahaniaeth i fywydau unigolion.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a death i ben am 2.40 y.h.

**CADEIRYDD**

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 21 Rhagfyr 2021 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant (Cadeirydd Bwrdd Cefnogi Pobl) |
| **Swyddog Cyswllt:** | Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol<br>Catrin Thomas, Pennaeth Cynorthwyol (Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd) |
| **Manylion Cyswllt:** | awenmorwenaedwards@gwynedd.llyw.cymru<br>catrinthomas@gwynedd.llyw.cymru |
| **Teitl yr Eitem:** | Rhaglen Cefnogi Pobl |

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Gofynnir i aelodau'r Cabinet gymeradwyo adnoddau un tro am ddwy flynedd,sef £193,217 yn 2022/23 a £155,990 yn 2023/24 o'r Gronfa Adfer COVID tuag at y Rhaglen Cefnogi Pobl.

1.2 Rydym eisoes wedi gwyro ac adnabod adnoddau ar gyfer eleni (2021/22) drwy gyllidebau gwasanaethau ar draws y Cyngor a thrwy uchafu ein grantiau presennol.

### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 Mae'r maes cefnogi pobl yn newid yn sydyn ar hyn o bryd oherwydd yr ansefydlogrwydd economaidd-gymdeithasol sydd yn sgil yr argyfwng. Rydym yn gweld bod mwy o bobl Gwynedd angen ein cefnogaeth i'w hamddiffyn rhag tlodi a'i effeithiau ar eu bywydau.

2.2 Rydym wedi ymateb i anghenion ein trigolion y gorau y gallwn oddi fewn i'n hadnoddau presennol; ond rydym angen buddsoddiad tymor byr er mwyn cynnal hynny a sicrhau ein bod yn gallu dal i ymateb i'r agenda gyfnewidol hwn.

### 3. CEFNDIR

3.1 Mae'r Rhaglen "Cefnogi Llesiant Pobl" yn edrych ar ein trefniadau a'n darpariaethau ar gyfer cefnogi pobl fregus i ymdopi gyda heriau bywyd fel eu bod yn gallu ffynnu, bod yn ddiogel ac yn iach.

3.2 Mae'r rhaglen yn cyfrannu tuag at gyflawni'n blaenoriaeth gorfforaethol o leihau anghydraddoldebau a thaclo tlodi yn y sir, fel sydd wedi ei nodi yng Nghynllun y Cyngor.

3.3 Rydym wedi adolygu sgôp y rhaglen ers y pandemig er mwyn sicrhau ein bod yn ymateb i'r hyn sy'n bwysig i'n trigolion yn y cyfnod presennol, ac er mwyn ymateb i'r newid mewn heriau mae ein trigolion ni yn ei wynebu ar hyn o bryd.

3.4 Felly, eleni rydym yn canolbwyntio ein hymdrechion ar gefnogi trigolion sydd yn:

a) wynebu digartrefedd;
b) gofalu am anwyliaid yn ddi-dâl;
c) wynebu tlodi;
d) wedi eu hallgau yn ddigidol.

3.5 Byddwn hefyd yn canolbwyntio ein hymdrechion ar weithio ar draws gwasanaethau a gyda'n partneriaid ar ymyraethau i hyrwyddo llesiant i blant, pobl ifanc a phobl o bob oed; ac ar sut y gallwn gefnogi gwydnwch cymunedau.

3.6 Byddwn yn parhau i edrych ar fodelau a'n ffyrdd o weithio ar gyfer sicrhau fod trigolion yn cael mynediad i'r ystod eang o gefnogaeth sydd ar gael ar draws ein gwasanaethau, fel eu bod yn cael cefnogaeth sy'n amserol, yn gydlynus, ac yn lleol mewn cymunedau.

3.7 Mae Grwpiau Tasg a Gorffen yn gyrru ymlaen yr agenda pwysig hwn gyda chynlluniau gweithredu i'r meysydd penodol hyn ar draws ein hadrannau. Fodd bynnag, wrth adolygu sgôp y rhaglen rydym wedi adnabod bylchau yn ein trefniadau, capasiti a'n darpariaethau i wireddu'r hyn sydd ei angen, i fynd i'r afael a gofynion cefnogi pobl ein trigolion.

## 4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

4.1 Mae'r Cyngor a'i bartneriaid wedi bod yn weithredol yn cefnogi pobl, yn arbennig y grwpiau a nodir yn 3.4 uchod, ers cyn yr argyfwng. Bu i ni addasu ein gwasanaethau a'n darpariaethau, ynghyd â sefydlu rhai newydd drwy gydol yr argyfwng, er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi'r gefnogaeth oedd ei hangen i'n trigolion.

4.2 Sefydlwyd Grŵp Gwydnwch Cymunedol yr Argyfwng i dynnu ynghyd adrannau'r Cyngor, Bwrdd Iechyd, Cyngor ar Bopeth, Adra, Cynefin a Mantell Gwynedd er mwyn cefnogi pobl i ymdopi gyda heriau'r pandemig. Datblygodd y Grŵp ddarpariaethau yn ystod yr argyfwng er mwyn ymateb i anghenion trigolion fel yr oeddent yn codi megis Llinell Gymorth Covid, Rhaglen i Gefnogi Trigolion oedd yn Cysgodi, Grantiau i Grwpiau Covid Cymunedol, rhaglen recriwtio a lleoli gwirfoddolwyr, rhaglenni cadw cyswllt a chyfeillio, darpariaeth bwyd argyfwng. Mae nifer o'r darpariaethau hynny bellach wedi dirwyn i ben gan fod yr angen

wedi ei ddiwallu, neu maent wedi parhau drwy ein gwaith dydd i ddydd ni a’n partneriaid.

4.3 Dros y 12 mis diwethaf rydym hefyd wedi bod yn mynd ati i addasu ac adfer nifer o raglenni sy’n mynd i’r afael â chefnogi pobl sy’n wynebu tlodi, megis Dechrau’n Deg, Cynnig Gofal Plant 30 awr, budd-dal tai, tal tai disgresiynol, darpariaeth gostyngiad treth cyngor, brecwast a chinio ysgol am ddim, grant dysgu disgyblion a grantiau eraill i ysgolion, rhaglenni cyflogadwyedd megis Cymunedau am Waith a’r Fframwaith Ymgysylltiad a Datblygiad Pobl Ifanc, a rhaglenni tlodi tanwydd megis Cymru Gynnes.

4.4 Yn yr un modd, mae nifer o’r darpariaethau eraill oedd yn weithredol yng Ngwynedd gan bartneriaid lleol a cenedlaethol yn ail-gydio.

4.5 Mae’r rhaglenni hyn yn adfer i gyd-destun economaidd-gymdeithasol dra gwahanol. Mae’r gwaith y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn yn ymwneud yn bennaf gyda lliniaru effeithiau tlodi tymor byr – gan fod yr argyfwng wedi cael effaith ar amgylchiadau arferol pobl, ar yr un adeg ag yr ydym wedi gweld cynnydd yn nghostau byw yn gyffredinol. Byddwn yn parhau i weithio drwy ein cynlluniau datblygu economaidd, gwaith a chyflogadwyedd, addysg, iechyd a tai i atal a thaclo tlodi tymor hir.

4.6 Mae cyswllt agos yma gyda ymdrechion y Cyngor i gefnogi pobl Gwynedd i chwarae rhan lawn yn y byd gwaith drwy law’r tîm Gwaith Gwynedd o fewn yr Adran Economi a Chymuned. Rydym yn parhau i fuddosddi mewn cynlluniau strategol sy’n ymwnued â sicrhau fod yr economi lleol yn cynnig cyfleoedd gwaith sydd yn bodloni anghenion ein trigolion.

4.7 Rydym yn parhau i weld cynnydd yn y nifer o drigolion sy’n ceisio cefnogaeth i’w helpu i gynnal tenantiaeth ac i atal bod yn ddigartref. Er bod nifer o resymau gwahanol pam fod trigolion yn wynebu digartrefedd mae materion ariannol, oherwydd ôl-ddyledion, methu â thalu rhent, diffyg incwm a chostau cynyddol yn un o’r rhesymau hynny. Rydym angen sicrhau fod y rhaglenni amrywiol sydd yn y sir yn cydblethu gyda’r Grant Cymorth Tai, ac yn ein helpu i gyflawni’r Cynllun Gweithredu Tai ac atal pobl rhag dod yn ddigartref oherwydd tlodi.

4.8 Yn yr un modd rydym eisoes yn ymwybodol pa grwpiau o bobl sydd fwyaf tebygol o ddioddef tlodi, a pha grwpiau o bobl sydd wedi cael eu heffeithio yn fwyaf anghymesur gan yr argyfwng. Mae plant, teuluoedd gyda chyfrifoldebau gofalu, teuluoedd incwm isel, pobl anabl, pobl o leiafrifoedd ethnig, merched, pobl ifanc sengl di-waith, aelwydydd incwm isel mewn peryg o golli cartref, i gyd yn grwpiau o bobl sydd mewn peryg o ddioddef tlodi neu yn dioddef tlodi ar hyn o bryd.

4.9 Wrth wneud hyn bydd yn ein helpu i sicrhau ein bod, wrth wneud penderfyniadau, yn rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau’r canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

4.10 Mae'r Cyngor a'r partneriaid yn parhau i geisio cydweithio er mwyn ymateb i fylchau sydd yn ein darpariaethau ar hyn o bryd o amgylch fforddiadwyedd bwyd; uchafu incwm, hawlio budd-dal a chyngor ariannol; a chynhwysiad digidol.

4.11 Rydym eisoes wedi uchafu'r Gronfa Caledi, Cronfa Adfer, Grantiau Ataliol amrywiol i gynnal ein gwaith yn y meysydd hyn.

4.12 Rydym angen gwell dealltwriaeth o batrwm tlodi Gwynedd a'r darpariaethau sydd mewn lle i ymateb. Drwy gryfhau ein dealltwriaeth, a'n trefniadau cydweithio gyda phartneriaid, gallwn wyro rhaglenni i'r llefydd cywir, a chyd-gynllunio i gyfarch bylchau er mwyn sicrhau cefnogaeth gywir i bobl Gwynedd.

**Tlodi Bwyd**

4.13 Mae'r Cyngor wedi cefnogi'r banciau bwyd gyda chyflenwad bwyd ynghyd â grantiau cyfalaf a refeniw tuag at gostau rhedeg; rydym hefyd wedi tynnu adnoddau o sawl grant cenedlaethol ynghyd i gefnogi 20 Cynllun Bwyd Cymunedol drwy'r sir dros y 12 mis diwethaf. Mae'r Cynlluniau yn ymwneud â thyfu a darparu bwyd a phrydau, lleihau gwastraff bwyd, a datblygu sgiliau coginio.

4.14 Mae'r Banciau a'r Cynlluniau Cymunedol yn parhau i fod yn weithredol drwy'r sir gyda nifer yn adrodd cynnydd yn y nifer trigolion sy'n cysylltu am gefnogaeth bwyd. Rydym newydd gysylltu gyda'r holl gynlluniau i adnabod eu hanghenion dros y gaeaf sydd o'n blaenau. Byddwn yn Uchafu'r Gronfa Adfer Gofal Cymdeithasol, y Grant Plant a Chymunedau, y Gronfa Galedi a'r Grant Brexit i gefnogi'r ymdrechion hyn ac i gefnogi'r cynlluniau i gyfarch anghenion ein trigolion.

4.15 Mae nifer o'r cynlluniau bwyd wedi datgan eu dymuniad i fod yn rhan o rwydwaith sirol er mwyn gallu rhannu adnoddau, cefnogi ei gilydd, ac edrych ar gyfleon i gydweithio. Mae nifer o'r cynlluniau wedi datgan eu dymuniad i weithio'n agosach gyda rhai o wasanaethau'r cyngor er mwyn gallu cyfeirio'r trigolion sy'n dod atynt i gefnogaeth sydd ei hangen arnynt, yn arbennig felly tai, iechyd meddwl, gofal, budd-daliadau ac incwm, gwaith, dyledion, camddefnyddio sylweddau.

4.16 Rydym angen sicrhau fod gennym y gallu i gefnogi'r rhwydwaith o gynlluniau bwyd i'w galluogi i barhau i gefnogi trigolion bregus yn eu cymunedau.

**Uchafu Incwm, Budd-daliadau a Chyngor Ariannol**

4.17 Mae nifer o aelwydydd nad ydynt erioed wedi defnyddio'r system fudd-daliadau o'r blaen, na banciau bwyd na unrhyw ffynhonnell gymorth arall, bellach yn ceisio llywio eu ffordd drwy'r rhain am y tro cyntaf.

4.18 Rydym hefyd yn gwybod fod newidiadau yn y Gyfundrefn Lles yn parhau i fod yn heriol i nifer o'n trigolion, a'r newid diweddaraf i daliadau Credyd Cynhwysol wedi cael effaith ar 9,800 aelwyd yng Ngwynedd, gyda dros eu hanner nhw yn aelwydydd a phlant.

4.19 Mae tan hawlio hanesyddol ar y budd-dal Credyd Pensiwn. Gallai ei hawlio gan unigolion sy'n gymwys osgoi tlodi, hybu pobl hŷn i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain a lleihau'r galw ar Wasanaethau Gofal Oedolion.

4.20 Mae'r Cyngor wedi cydweithio ar ymgyrchoedd "Hawlia dy Arian", ac ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth o Wasanaethau Cynghori Ariannol lleol ar y cyd gyda Cyngor ar Bopeth a Gwasanaeth Budd-daliadau'r Cyngor.

4.21 Mae nifer o wasanaethau **cynghori ariannol a dyledion** yn parhau i weithio'n rhithiol sy'n rhwystr i nifer heb allu/cysylltedd digidol. Mae adfer canolfannau a gwaith wyneb yn wyneb ar y gweill ond nid ar y cyflymdra i gyfarch y galw. Rydym yn cefnogi Cyngor ar Bopeth ac mae adnoddau wedi ei hadnabod drwy'r Gronfa Adfer Gofal Cymdeithasol er mwyn helpu'r gwasanaeth cynghori i adfer yn gyflymach.

4.22 Rydym angen sicrhau fod y trigolion hyn yn hawlio'r gefnogaeth ariannol sydd ar gael iddynt drwy fudd-daliadau amrywiol. Rydym angen sicrhau fod trigolion Gwynedd yn gwybod be sydd ar gael iddynt, sut i'w hawlio a'u cefnogi i lywio drwy'r gwasanaethau hyn.

## Tlodi Tanwydd

4.23 Mae costau tanwydd i gadw cartrefi'n gynnes wedi cynyddu'n sylweddol, ac yn cael effaith ar incwm trigolion Gwynedd, gan wthio nifer o deuluoedd i dlodi neu ymhellach i dlodi.

4.24 Mae'r Cyngor yn cydweithio â Llywodareth Cymru ar sut rydym yn gwella cyflwr tai er mwyn i ni allu gosod y mesurau carbon isel fydd yn eu tro yn arwain at leihau tlodi tanwydd. Rydym yn cydweithio â'r sector preifat ar gynllun Eco i ehangu'r nifer o dai sy'n cael mesurau cymorth. Rydym hefyd yn edrych ar ehangu'r cynllun i gwmpasu ardaloedd cyfan yn sgîl Arbed am byth. Mae partneriaid y Cyngor yn cynnwys Nyth, Cymru Gynnes, a grwpiau cymunedol fel Ynni Twrog a'r Dref Werdd i ddatblygu cynlluniau carbon isel er mwyn ymateb i her tlodi tanwydd

4.25 Mae Cynllun ECO, Wardeiniaid Ynni (a arweinir gan Adra ar ran y Bartneriaeth Tai), sawl grŵp cymunedol a Cyngor ar Bopeth yn cefnogi trigolion gyda chyngor ar gyflenwyr, newid cyflenwyr a thariff, rheoli dyledion cyflenwyr, a gwella sgiliau trigolion ar ddefnydd ynni ar hyn o bryd. Rydym yn sefydlu Desg Gymorth Tai yn rhan o'r Cynllun Gweithredu Tai presennol, a bydd trigolion Gwynedd yn gallu cael mynediad i gymorth ac atebion i'w problemau tlodi tanwydd yno.

4.26 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf ar gyfer aelwydydd incwm isel, oed gwaith. Byddwn yn gweinyddu’r taliadau drwy'r Gwasanaeth Budd-daliadau.

4.27 Rydym angen sicrhau bod trefniadau mewn lle i uchafu’r rhaglenni hyn i’n helpu i gyflawni’r Cynllun Gweithredu Tai, ynghyd â sicrhau fod y darpariaethau hyn wedi cysylltu gyda’r rhaglenni trechu tlodi ehangach.

**Cynhwysiad Digidol**

4.28 Mae’r argyfwng wedi gorfodi trigolion a gwasanaethau i ddefnyddio a dibynnu ar gyswllt rhithiol, ac ar-lein. Mae gwaith blaenorol Gwynedd Ddigidol wedi adnabod grwpiau trigolion sydd wedi eu hallgau’n ddigidol, ac mae amgylchiadau’r argyfwng wedi arwain at allgau mwy o bobl.

4.29 Mae’r Cyngor, Bwrdd Iechyd, Partneriaeth Addysg Oedolion a Chymuned, partneriaid gwirfoddol a grwpiau cymunedol i gyd wedi ceisio ymateb i’r her hon yn ystod yr argyfwng drwy amryw gynlluniau sy’n ymwneud â dysgu sgiliau digidol; dysgu defnyddio teclynnau; benthyg cyfarpar a theclynnau; cyngor digidol i drigolion; ailgylchu ac adnewyddu cyfarpar i aelwydydd incwm isel ac ati.

4.30 Drwy’r Fframwaith Cynhwysiad Digidol, mae Llywodraeth Cymru yn darparu rhaglen Cymunedau Digidol Cymru sy’n weithredol yma.

4.31 Nid yw’r darpariaethau hyn yn ymwneud â darparu seilwaith band eang, darparu gwasanaethau cyhoeddus na’r agenda addysg a sgiliau. Mae’r meysydd hyn yn cael sylw ar wahân drwy feysydd polisi eraill sef Economi, Addysg ac ati.

4.32 Rydym eisiau cydweithio gyda’n partneriaid er mwyn sicrhau fod y grwpiau sydd wedi eu hallgau’n ddigidol yn gallu manteisio o’r darpariaethau sydd ar gael.

4.33 Roedd y Cyngor yn cydweithio am rhai blynyddoedd gyda’r elusen genedlaethol Citizens Online fel rhan o gynllun gan Gronfa'r Loteri Fawr i ddarparu a chydlynu cefnogaeth i leihau eithrio digidol. Cyflwynwyd cais llwyddiannus am bron i £155,000 gan Citizens Online i adfer eu gweithgaredd yn y sir drwy law'r Cyngor i Gronfa Adfywio Cymunedol Llywodraeth y DU. Bydd y rhaglen hon yn weithredol hyd at Fehefin 2022.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

5.1 Penodi Cydlynydd Cynhwysiad a Swyddog Cefnogi Cynhwysiad. Drwy’r buddsoddiad hwn byddwn yn cyflawni’r canlynol

- Sefydlu Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi ar y cyd gyda’n partneriaid.
- Sefydlu rhwydwaith tlodi bwyd yn y sir
- Ail-gydio yn ein trefniadau cynllunio a cydweithio ar draws partneriaid megis y Grŵp Cynhwysiad Ariannol, Grŵp Lles a Grŵp Cynhwysiad Digidol.
- Ymgyrchoedd hyrwyddo budd-daliadau lleol yn arbennig i dargedu aelwydydd incwm isel,a  teuluoedd drwy’r ysgolion.

- Ehangu ar y gefnogaeth leol i drigolion ymgeisio am fudd-daliadau a cael mynediad i gyngor ariannol.
- Cefnogi trigolion gyda darparaieh fwyd argyfwng a cyngor ariannol.

5.2 Proffil Ariannol:

| | **2022/23** | **2023/24** |
|---|---|---|
| Cydlynydd Cynhwysiad a Thlodi | 47,241 | 47,950 |
| Swyddog Cefnogol | 36,488 | 37040. |
| Hyrwyddwyr Budd-dal | 55,000 | 55,000 |
| Hyrwyddwr Budd-dal Ysgolion | 36,488 | |
| Costau Gweithredol | 18,000 | 16,000 |
| CYFANSWM | 193,217 | 155,990 |

## 6. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

### i) Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

### ii) Y Pennaeth Cyllid:

Gallaf gadarnhau cywirdeb y ffigyrau ariannol sy'n ymddangos ym mharagraff 5.2. Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir.

**Cyfarfod:** **Cabinet**

**Dyddiad:** **21 Rhagfyr 2021**

**Teitl:** **Sefydlu Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) Rhanbarth Gogledd Cymru**

**Pwrpas:** Ymhellach i ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn sefydlu CBC rhanbarth y Gogledd, rhaid i'r 6 awdurdod lleol wneud trefniadau priodol cyn cynnal cyfarfod cyntaf y CBC, a chytuno ar gyllideb 2022/23 y CBC erbyn 31 Ionawr 2022, cyn bydd swyddogaethau cychwynnol y CBC yn 'mynd yn fyw' ar 30 Mehefin 2022.

**Aelod Cabinet:** **Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

**Swyddogion Cyswllt:** **Dafydd Gibbard – Prif Weithredwr, Iwan G D Evans – Swyddog Monitro a Dafydd L Edwards – Pennaeth Cyllid.**

---

**Y Penderfyniad a Geisir**

**Cytuno mewn egwyddor i drosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru trwy gytundeb dirprwyo i Gyd-Bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru** yn amodol ar;

a) bod y fframwaith statudol mae Llywodraeth Cymru yn ei ddatblygu yn caniatáu dirprwyo'r swyddogaethau gweithredol perthnasol i Gyd-Bwyllgor Corfforaethol,
b) bod **Cyd-Bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru yn cytuno i sefydlu Is-Bwyllgor,** ag aelodaeth i'w gytuno gyda'r Cynghorau, **i gyflawni swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais Economaidd**.

Cynigir y trosglwyddiad hwn er mwyn cyflawni model llywodraethu symlach, gan osgoi dyblygu. Cyflwynir adroddiad manwl pellach ar y fframwaith ar gyfer gweithredu i gyfarfod dilynol o'r Cabinet / Pwyllgor Gweithredol.

---

**Cefndir**

1. Gwnaed rheoliadau gan Lywodraeth Cymru ar 17 Mawrth 2021 yn creu pedwar Cyd-Bwyllgor Corfforedig yng Nghymru, a sefydlwyd y Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) y Gogledd ar 1 Ebrill 2021.

2. Bydd y pedwar CBC yn cyflawni swyddogaethau sy'n ymwneud â chynllunio datblygu strategol a chynllunio trafnidiaeth ranbarthol. Byddant hefyd yn gallu gwneud pethau i hyrwyddo llesiant economaidd. Yn wahanol i drefniadau cyd-bwyllgorau eraill, mae'r CBC yn gorff corfforaethol ar wahân sy'n gallu cyflogi staff a dal asedau.

3. Mae CBC ein rhanbarth eisoes yn bodoli fel corff corfforedig annibynnol, a daw ei swyddogaethau cychwynnol i rym ar 30 Mehefin 2022 (dyddiad 'mynd yn fyw' CBC gogledd Cymru). Yn y gorffennol, mynegwyd amheuon oherwydd gallai'r CBC arwain at "haen arall o fiwrocratiaeth", ond rwan nid oes dewis heblaw gwneud iddo weithio.

4. Bydd rheoliadau pellach yn dilyn. Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ganllawiau statudol drafft. Mae Pinsent Masons LLP, sy'n cynghori nifer o ranbarthau Cymru, mewn cyswllt â Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r manylion. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar weithredu a throsglwyddo rhanbarthol - sefydlu CBC y Gogledd.

5. Mae cyllid grant Llywodraeth Cymru o £250,000 wedi'i gymeradwyo, i ehangu capasiti rheoli prosiect a chomisiynu cymorth proffesiynol (gan gynnwys cyngor cyfreithiol) i gefnogi gweithredu CBC y rhanbarth a throsglwyddo iddo yn ystod 2021/22.

6. Mae sefydlu'r CBC yn ofyniad cyfreithiol, ond mae'r amserlen yn parhau i fod yn heriol, gan gynnwys y 'dyletswyddau di-oed' a ragnodir yn y ddeddfwriaeth (h.y. Cynllun Datblygu Strategol rhanbarthol, Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, a'r swyddogaeth llesiant economaidd), yr angen i gydbwyso'r drefn flaenorol gyda gofynion statudol newydd, amserlennu cyfarfodydd cychwynnol, a pennu cyllideb yn Ionawr 2022.

7. Cyflwynir yr adroddiad yma'n gyd-amserol i gyfarfodydd Cabinet (neu Bwyllgor Gweithredol cyffelyb) y 6 Cyngor: Conwy, Dinbych, Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn.

**Egwyddorion**

8. Mae consensws y dylai'r CBC barhau i'r cyfeiriad a sefydlwyd gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, efallai wedi'i gefnogi'n well maes o law gan strwythurau, pwerau a liferau a ddarperir gan ddeddfwriaeth CBC. Ymhellach, mae Arweinyddion a Phrif Weithredwyr y 6 Cyngor yn cytuno y dylai ein CBC gael ei 'adeiladu' ar y nodau a'r egwyddorion a ganlyn:

   i. Eglurder / symlrwydd
   ii. Osgoi biwrocratiaeth newydd a chost ormodol
   iii. Ychwanegu gwerth at lywodraethiant rhanbarthol presennol, nid tarfu arno
   iv. Penderfyniadau mawr y Cynllun Twf i'w diogelu fel 'materion a gedwir yn ôl'
   v. Cyfrifolaeth (penderfyniadau gan ALl unigol ar faterion sy'n effeithio nhw)
   vi. Caniatáu i bwerau a chyfleoedd newydd gael eu datganoli i'r rhanbarth
   vii. Diogelu at y dyfodol

9. Yn wyneb yr amserlen heriol, mae cytundeb traws-ffiniol y dylem anelu i ddechrau at sefydlu model llywodraethu symlach, gan osgoi dyblygu tra'n rhoi sylw dyledus i gyfrifolaeth. Y flaenoriaeth gyntaf yw symud y Bwrdd Uchelgais i is-bwyllgor sydd wedi'i rymuso o'r CBC, gan nodi mai Arweinyddion yr awdurdodau lleol fydd yn rheoli'r corff corfforedig hwn. Gyda chymeradwyaeth i sefydlu'r model llywodraethu hwn, byddem yn sicrhau ein bod yn cadw ein hopsiynau ar agor gyda lefel uchel o hyblygrwydd i ystyried manylion trosglwyddo (e.e. materion staff) ar sail 'achos wrth achos'.

**Strwythur y Bwrdd Uchelgais yn y CBC**

10. Mae Pinsent Masons wedi ystyried y strwythurau gweithredol sydd ar gael i'r Bwrdd Uchelgais wrth symud ymlaen, yng ngoleuni sefydlu'r CBC, cyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru a'r egwyddorion rhanbarthol cytunedig nodwyd o dan baragraff 5 uchod.


11. Byddai gwneud dim, neu 'cyd-fodoli' yn annigonol, yn groes i bolisi Llywodraeth Cymru, ac nid yw'n mynd i'r afael â sut y bydd swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais yn cael eu cyflawni gan y CBC.

12. Ar yr olwg gyntaf, gallai trosglwyddiad rhannol i fodel 'hybrid' a chadw awdurdod lletya fel corff atebol, yn cyd-fodoli â'r CBC, ymddangos yn ddeniadol o ran osgoi newid o'r model Bwrdd Uchelgais presennol (er gwaethaf manteision CBC). Fodd bynnag, byddai hyn angen cytundebau cefn wrth gefn cymhleth ar gyfer trafodion noddwyr prosiectau ar ran y Bwrdd Uchelgais. Nid yw’n eglur, ac nid yw'n darparu unrhyw wir fantais. Ymhellach, byddai ein rhanbarth dal angen CBC gweithredol i ymgymryd â'r rolau Trafnidiaeth a Chynllunio, sydd wedi'u breinio'n uniongyrchol yn y CBC.

13. Y strwythur gweithredol mwyaf effeithlon a hyfyw, sy'n bodloni'r gofyn i drosglwyddo i CBC, yw trosglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais Economaidd i is-bwyllgor sydd wedi’i rymuso o'r CBC. O ganlyniad, bydd trosglwyddo'r swyddogaethau i is-bwyllgor yn cadw elfennau craidd y Bwrdd Uchelgais, ond yn darparu model cyflenwi mwy cadarn ac effeithlon yn uniongyrchol drwy gerbyd corfforedig y CBC. Yn allweddol, dylai'r fframwaith ganiatáu model llywodraethu is-bwyllgor i’w gytuno arno gyda'r CBC i gadarnhau / parhau â rôl y Cynghorau a'r Partneriaid mewn perthynas â'r “Materion a Gedwir yn Ôl”.

14. Mae Pinsent Masons wedi cynghori swyddogion yn fanwl ar y manteision a rhai materion allweddol, cyn i ni ddod i'r casgliad mai trosglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais i is-bwyllgor fyddai’n darparu’r strwythur gorau ar gyfer y CBC. Fel corff corfforedig ar wahân, gall y CBC esblygu'n naturiol dros amser a chyflawni mentrau ehangach, gan adeiladu ar y blynyddoedd diwethaf o fuddsoddiad cyhoeddus rhanbarthol o dan y Bwrdd Uchelgais a pharhau â'r llwybr a sefydlwyd gan y Cynllun Twf.

15. Mae'r strwythur pwyllgor CBC arfaethedig a ddangosir yn y siart a ganlyn, gan gynnwys sefydlu cerbyd cyflawni ategol y Bwrdd Uchelgais (is-bwyllgor). Bydd hyn yn cyfyngu ar faint y newid ac yn bodloni’r ‘dyletswyddau di-oed’ mewn ffordd gydsyniol –




** Dirprwyo i is-bwyllgorau statudol, sydd hefyd yn ddarostyngedig i'r gofynion tryloywder sy'n berthnasol i gyrff swyddogaeth weithredol.

**Gwneud Penderfyniadau**

16. Mae Pinsent Masons yn cynghori, wedi trosglwyddo swyddogaethau dan y CBC, gellid gwneud penderfyniadau i raddau helaeth fel mae penderfyniadau'n digwydd ar hyn o bryd o fewn y Bwrdd Uchelgais, gydag awdurdodau lleol yn cadw rheolaeth gyffredinol dros benderfyniadau'r Cynllun Twf drwy drefniadau dirprwyo neu adnewyddu cadarn. Bydd hyn angen deddfwriaeth ddiwygio er mwyn caniatáu dirprwyo swyddogaethau gweithredol neu Gabinet i'r CBC, fel maent wedi'u dirprwyo i'r Bwrdd Uchelgais ar hyn o bryd. Deallir gan Pinsent Masons, ymhellach i'w trafodaethau nhw gyda Llywodraeth Cymru, y bydd hyn yn cael sylw yn y set o reoliadau sydd ar ddod.

17. Bydd y cynllun dirprwyo o'r awdurdodau lleol i'r CBC yn egluro pa faterion sy'n parhau i fod yn benderfyniadau sydd wedi'u cadw ar gyfer yr awdurdodau lleol fel y nodir ar hyn o bryd yn 'GA2'.

18. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn aelod pleidleisio ychwanegol o'r CBC, ond dim ond ar faterion sy'n ymwneud â'r swyddogaeth cynllunio strategol a'i chyllideb.

19. Nid yw'r 'Ymgynghorwyr' (penaethiaid colegau) yn aelodau gwreiddiol o'r CBC, ond gellir eu cyfethol i'r is-bwyllgor a gellir rhoi hawliau pleidleisio iddynt os bydd CBC yn penderfynu felly (ac, os felly, byddai model presennol y Bwrdd Uchelgais yn parhau).

**Rhinweddau trosglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais i'r CBC gan ffurfio un endid corfforedig**

20. Ar ôl ystyried dull a goblygiadau trosglwyddo trefniadau Bwrdd Uchelgais rhanbarth y Gogledd a threfniadau cyfredol y Cynllun Twf (a lle bo'n berthnasol, cyflawni'r Weledigaeth Twf) i'r CBC, mae cyngor cyfreithiol a gafwyd gan Pinsent Masons yn dangos y gellir cyflawni symlrwydd ac osgoi biwrocratiaeth (dwy egwyddor allweddol a nodir o dan baragraff 5 uchod) drwy ddefnyddio potensial y CBC yn llawn trwy drefniadau cytundebol uniongyrchol.

21. Mae'r farn hon yn cael ei chefnogi'n gryf gan brofiad, dadansoddiad a phenderfyniad Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i 'godi a symud' gweithrediadau eu bargen ddinesig (cynllun twf) nhw i'w CBC, gan ffurfio un endid corfforedig. Bydd Caerdydd yn 'mynd yn fyw' o ran cychwyn eu swyddogaethau ar 28 Chwefror 2022, pedwar mis cyn dyddiad 'mynd yn fyw' ein CBC ni, sy'n caniatáu i ni gael ein hysbysu gan gynseiliau yno.

22. Bydd trosglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais i un endid corfforedig yn golygu peidio defnyddio awdurdod lletya fel y corff atebol. Er hynny, gallai awdurdodau lleol unigol barhau i ddarparu swyddogion a gwasanaethau cefnogol i'r CBC / Bwrdd Uchelgais drwy gytundeb, neu gallai awdurdodau lleol unigol gytuno i 'arwain' ar un o'r 'dyletswyddau uniongyrchol' penodol. Hefyd, gallai partneriaid unigol barhau i arwain ar brosiectau unigol, wrth gwrs.

23. Rhaid i CBC rhanbarth y Gogledd benodi swyddogion statudol, h.y. Prif Weithredwr, Swyddog Monitro, a Phrif Swyddog Cyllid (mae gan CBCau yr un gofynion adrodd a datgelu ariannol ag awdurdodau lleol). Fodd bynnag, gallai'r CBC ddewis naill ai cyflogi'r rhain yn uniongyrchol, neu ymrwymo i drefniadau gydag awdurdodau cyfansoddol i'w swyddogion gael eu rhoi ar gael i'r CBC.

24. Gellid isafu'r staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y CBC. Cyn y dyddiad 'mynd yn fyw' ar 30 Mehefin 2022, bydd angen i ni ystyried yn ofalus y broses o drosglwyddo staff y Bwrdd Uchelgais i'w cyflogi gan y CBC, yn hytrach na'r awdurdod lletya. Ar y dechrau, gellid cyfyngu ar unrhyw newid cyflogaeth arall drwy ddefnyddio cytundebau lefel gwasanaeth gydag awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau, neu secondio staff o awdurdodau lleol. Yn dilyn hynny, gall y CBC wneud penderfyniadau 'cyflawni' gyda phob swyddogaeth unigol.

**Gwerth ychwanegol i'r Bwrdd Uchelgais o fewn y CBC fel un endid corfforedig**

25. Mae defnyddio awdurdod lletya fel y corff atebol wedi llwyddo i sefydlu'r Bwrdd Uchelgais. Fodd bynnag, byddai parhau â'r dull cytundeb asiantaeth / gwasanaethau cytundebol hwn ("cyd-fodoli" gyda'r CBC o hyn allan) yn golygu yn y pen draw bod y Bwrdd Uchelgais a'r awdurdod lletya yn cael eu llyffetheirio mewn "cytundebau cefn wrth gefn" y bydd angen ar brosiectau unigol.

26. Dros tua 6 blynedd, mae hyn wedi rhoi mwy o straen ar Gyngor Caerdydd fel y corff atebol ar gyfer bargen ddinesig eu rhanbarth. Gan fod gennym arian grant i gefnogi trosglwyddo o'r fath rwan, dylai Gwynedd a gogledd Cymru gymryd sylw o'n cyfle i fanteisio ar brofiadau Caerdydd yn awr, er mwyn osgoi'r amser a'r gost o newid yn ddiweddarach. Mae gennym gyfle amserol rwan i ddysgu o brofiad y Brifddinas-Ranbarth. Byddai angen i'r corff atebol 'novatio' neu cadw (yn dibynnu ar natur a chymhlethdod y prosiectau unigol) llawer mwy o gytundebau benthyca a chontractau pe bai'r Gogledd yn newid model ein Bwrdd Uchelgais i endid corfforedig yn y dyfodol.

**Is-bwyllgorau ar gyfer Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth Strategol**

27. Mae consensws clir (o drafodaethau diweddar rhwng Arweinyddion a Phrif Weithredwyr y 6 Cyngor) fod arnom angen strwythur llywodraethu gydag is-bwyllgorau ar gyfer Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth Strategol, y ddau yn is-bwyllgorau i'r CBC ochr yn ochr â'r Bwrdd Uchelgais fel is-bwyllgor ynddo'i hun, ac nid oddi tano.

28. Gallai'r is-bwyllgorau hyn fod yn cynnwys aelodau cabinet perthnasol o'r awdurdodau cyfansoddol, ochr yn ochr â'u harweinyddion ar y CBC. Gallai'r CBC benodi aelodau eraill sydd â hawliau pleidleisio gan sefydliadau partner, yn ôl y gofyn. Gallai'r model llywodraethu dirprwyedig yma ein galluogi i gael agenda cyfarfod CBC ysgafnach, gydag is-bwyllgorau'n gwneud y gwaith trwm. Mae rhai materion na all y CBC eu dirprwyo yn y cyd-destun hwn, yn enwedig o ran strwythur llywodraethu, penderfyniadau cyllidebol, a rhai penderfyniadau allweddol mewn perthynas â mabwysiadu'r cynlluniau statudol.

29. Bu awgrym y dylid cael 'awdurdod lletya' ar gyfer cynllunio strategol ac 'awdurdod lletya' ar gyfer trafnidiaeth strategol. Gellid secondio rhywfaint o gapasiti presennol i wneud y gwaith strategol ar y ' swyddogaethau cychwynnol' y mae'n rhaid eu cyflawni ar gyfer y CBC. Er y gallai awdurdodau lleol unigol fod yn barod i arwain ar swyddogaethau cynllunio neu drafnidiaeth, ni fyddent yn 'gorff atebol' fel y mae Gwynedd ar gyfer y Bwrdd Uchelgais. Byddai'r CBC, fel endid corfforedig, yn cytundebu gyda thrydydd partïon fel bo angen. Fodd bynnag, mewn egwyddor, gallai fod yn ymarferol i awdurdodau unigol arwain a chyflawni'r swyddogaethau cynllunio a thrafnidiaeth, gyda'r CBC yn ariannu'r cynnydd yng nghapasiti / cyfrifoldeb rhanbarthol yr awdurdodau hyn.

**Trosglwyddo o Drefniadau'r Cynllun Twf**

30. Mae nifer o faterion rheoleiddio eto i'w datrys o ran trosglwyddo o'r trefniadau presennol i'r CBC – mae angen mynd i'r afael â rhai o'r rhain drwy reoliadau CBC disgwyledig, ac ati. Mae'r eglurhad sy'n ofynnol yn cynnwys y posibilrwydd o roi cytundeb ariannu'r Cynllun Twf ar waith i'r CBC (fel arall, yn amodol ar newidiadau deddfwriaethol i adlewyrchu cyfeiriad teithio Llywodraeth Cymru, gallai awdurdodau lleol ddirprwyo neu 'novatio' i'r CBC). Mae angen eglurhad hefyd ynghylch cwmpas gallu'r CBC i fenthyca, buddsoddi a gweithredu'n fasnachol, treth a statws TAW. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan mai eu bwriad polisi yw y dylai CBCau fod yn ddarostyngedig i'r un pwerau a dyletswyddau â phrif ALlau yn y ffordd y maent yn gweithredu (gan gynnwys yn y bôn y gallu i fenthyca ac adennill TAW fel awdurdodau lleol unedol). Mae atebion i rai materion yn dal i fod yn 'waith ar droed'.

31. Mae cyngor cyfreithiol yn cael ei dderbyn gan Pinsent Masons ar y dull a'r goblygiadau o drosglwyddo Bwrdd Uchelgais rhanbarth y Gogledd a threfniadau cyfredol y Cynllun Twf i'r CBC. Mae cyngor cyfreithiol cychwynnol a'r amserlenni heriol yn golygu bod nod Llywodraeth Cymru i drosglwyddo'r trefniadau hyn yn i'r CBC yn fwy heriol a chymhleth na'r disgwyl. Bydd angen i ni hefyd ystyried llywodraethiant CBC ac is-bwyllgorau arfaethedig ein rhanbarth, a fydd yn gofyn am fewnbwn arbenigol gan gyfreithwyr yr awdurdodau lleol.

32. Cyfeiriad polisi datganedig Llywodraeth Cymru yw y dylid rhoi'r pwerau angenrheidiol i'r CBC allu cyflawni'r Cynllun Twf ar gyfer yr awdurdodau lleol. Yn unol â hynny, yn dilyn adolygiad o'r ddeddfwriaeth bresennol a'r drafodaeth gyda Llywodraeth Cymru, daw cyfreithwyr arbenigol Pinsent Masons i'r casgliad na fwriedir gwahaniaeth sylweddol yn y modd y mae'r Bwrdd Uchelgais yn gweithredu ar hyn o bryd a sut y gallai'r CBC weithredu mewn perthynas â'r Cynllun Twf / Gweledigaeth Twf. Rhagwelir y gellir datrys cymhlethdodau o ran dirprwyo i'r CBC drwy Reoliadau pellach, gan ganiatáu i ni deilwra gweithrediadau i adlewyrchu anghenion y rhanbarth, yn unol â'r Bwrdd Uchelgais Economaidd a 'GA2'.

**Llywodraethu a Chyllid**

33. Byddai trosglwyddo'r Bwrdd Uchelgais Economaidd (heb unrhyw newid sylweddol i'r drefn gyfredol o weithredu) i'r CBC yn gofyn am benderfyniad ffurfiol gan bob un o'r awdurdodau lleol, ac yn ymarferol cydsyniad partneriaid eraill GA2. Hyd yn hyn, nid yw Rheoliadau Cyffredinol Cyd-Bwyllgorau Corfforaethol Llywodraeth Cymru wedi mynd i'r afael â mater rôl pwyllgorau craffu. Mae'r trefniadau craffu cyfredol ar gyfer y Bwrdd Uchelgais o fewn y fframwaith statudol ar gyfer craffu penderfyniadau gweithredol. Mae GA2 yn cynnwys protocol ar gyfer rheoli'r berthynas. Hyd yn hyn, nid oes trefniant statudol ar gyfer craffu ar y Cyd-Bwyllgorau Corfforaethol. Fodd bynnag, mae'r canllawiau statudol drafft ar Gyd-Bwyllgorau Corfforaethol yn pwysleisio rôl trefniadau trosolwg a chraffu yr awdurdodau lleol, fel rhan o'r fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd democrataidd fydd angen ei sefydlu. Mae yna reoliadau pellach i'w dilyn a bydd angen i ni ddatblygu fframwaith craffu a deall sail y trefniadau.

34. O ran y 'swyddogaethau cychwynnol' (gweler isod), bydd angen i'r CBC gytuno ar y gyllideb a dyrannu cyfraniadau ar draws yr awdurdodau lleol. Bydd cynrychiolydd pob awdurdodau lleol ar y CBC yn ymwybodol o'r egwyddorion arweiniol o dan GA2 y Bwrdd Uchelgais ond, gan fod y gyllideb yn ymwneud â'r 'swyddogaethau cychwynnol', bydd cyfraniadau'r gyllideb yn cael eu pennu a'u codi gan y CBC ei hun.

35. Bydd gofynion adnoddau parhaus sylweddol ar allu'r awdurdodau lleol i weinyddu a chyflawni swyddogaethau CBC. Nid yw'r beichiau gweinyddol hyn a'r gofynion adnoddau proffesiynol ar gyfer sefydlu a gwasanaethu'r CBC wedi'u adnabod yn llawn eto.

36. Fel rhan o'r cynllun dirprwyo i'r CBC, bydd yr awdurdodau lleol yn pasbortio cyllid y Cynllun Twf, a gaiff ei ddyrannu a'i fuddsoddi'n unol â thelerau'r 'Cynllun Busnes Amlinellol' (a fabwysiadwyd ar yr un pryd ag y llofnodwyd 'GA2'). Gellir cadw unrhyw newid sy'n effeithio ar sefyllfa ariannol awdurdod lleol i'r awdurdodau lleol benderfynu (yn hytrach na'r CBC), gan sicrhau bod yr agwedd hon yn gweithredu yn unol â threfn y Bwrdd Uchelgais.

37. Mae rhai rhwymedigaethau statudol ychwanegol yn cyd-fynd yn fras â'r ffordd y mae'r Bwrdd Uchelgais yn gweithredu, gan gynnwys:

- y CBC i baratoi cynllun busnes 12 mis sy'n nodi'r gweithgareddau sydd i'w cynnal a gofynion cyllideb y CBC;
- y CBC i gytuno ar ofynion cyllideb y CBC ar gyfer ei flwyddyn ariannol gyntaf mewn cyfarfod o'r CBC erbyn 31 Ionawr 2022, a sut y caiff ei godi (ardoll);
- y CBC i benodi'r cadeirydd a'r is-gadeirydd yn ei gyfarfod cyntaf; ac
- y CBC i sefydlu Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**Y 'Swyddogaethau Cychwynnol'**

38. Mae tair swyddogaeth gychwynnol wedi'u rhagnodi i'w cyflawni gan y CBC, dau nad ydynt yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd gan y Bwrdd Uchelgais:

- paratoi, monitro, adolygu a diwygio Cynllun Datblygu Strategol;
- datblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol – polisïau ar gyfer trafnidiaeth; a
- swyddogaeth llesiant economaidd – unrhyw beth sy'n debygol o hyrwyddo llesiant economaidd.

39. Mae rheolwyr polisi cynllunio yn y Gogledd wedi edrych ar opsiynau cyflawni a goblygiadau o ran costau ar gyfer cynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol (CDS) rhanbarth y Gogledd (yn ychwanegol at Gynlluniau Datblygu Lleol).

40. Mae gweithwyr trafnidiaeth proffesiynol wrthi yn ystyried sut y gellid datblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh) sy'n cydymffurfio ac yn ddigon cadarn.

41. Mae gan y Cynghorau a'r CBC bwerau cydamserol mewn perthynas â hyrwyddo llesiant economaidd - dyma un o'r pwerau, ymhlith llawer, y mae'r partïon yn dibynnu arnynt ar hyn o bryd i gyflawni'r Cynllun Twf. Maes o law, gellir ystyried ychwanegedd wrth gyflawni'r swyddogaeth hon yn seiliedig ar rôl Gweledigaeth Twf y Bwrdd Uchelgais a ragwelir ar hyn o bryd.

42. Mae'r egwyddorion cytunwyd arnynt yn rhanbarthol a nodir o dan baragraff 5 uchod yn gyson â barn gyffredin bod y cynigion yma'n cael eu gwneud ar sail 'dim bygythiad' i'r awdurdodau lleol. Felly, bydd y CBC yn pennu'r cyfeiriad a'r blaenoriaethau, ac mae'n debygol y bydd angen rhai swyddogaethau cydamserol, tra bydd ei CDS a'i CTRh yn gosod fframwaith polisi y mae'n rhaid i'r awdurdodau lleol roi sylw iddo. Fodd bynnag, yr awdurdodau lleol unigol fydd yn parhau i fod yn y sefyllfa orau i ymgymryd â gweithgarwch lleol o ran datblygu economaidd, cynllunio, trafnidiaeth a swyddogaethau eraill, gyda'r CBC yn grymuso ac yn cefnogi darpariaeth leol, ranbarthol a chenedlaethol.

**Argymhelliad**

43. Gofynnir i'r Cabinet Pwyllgor Gweithredol, yn amodol ar i Lywodraeth Cymru roi'r fframwaith statudol priodol ar waith, i fabwysiadu model llywodraethu symlach, gan osgoi dyblygu, trwy gymeradwyo mewn egwyddor i drosglwyddo Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i'w sefydlu fel is-bwyllgor o Gydbwyllgor Corfforaethol (CBC) rhanbarth Gogledd Cymru.

**Camau Nesaf**

44. Bydd angen rhoi sylw i'r tasgau allweddol a ganlyn (ddim yn restr gynhwysfawr) yn ystod diwedd 2021, neu yn chwarter gyntaf 2022:

   i. Ynglŷn ag aelodaeth y CBC, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri enwebu eu cynrychiolydd.
   ii. Pennu dyddiad cyfarfod cyntaf y CBC.
   iii. Cytuno ar ofynion cyllideb y CBC ar gyfer ei flwyddyn ariannol gyntaf mewn cyfarfod o'r CBC erbyn 31 Ionawr 2022.
   iv. Cytuno ar sut bydd gofynion cyllideb y CBC yn cael ei godi, h.y. cyfraniadau'r awdurdodau drwy ardoll.
   v. Y CBC i fabwysiadu strwythur is-bwyllgor, a llunio barn ar gyfethol, pwy, ble, cwmpas cyfranogiad, ac a ydynt yn pleidleisio ai peidio.
   vi. Sefydlu trefniadau llywodraethu a chefnogi cyfarfodydd ar gyfer y CBC.
   vii. Datblygu a sefydlu fframwaith Craffu, pan fydd rheoliadau Llywodraeth Cymru ar CBCau yn darparu'r sylfaen berthnasol ar gyfer y trefniadau.
   viii. Sefydlu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Safonau, a phenodi aelodau.

ix. Penderfyniad ffurfiol gan yr awdurdodau lleol, ynghyd â chydsyniad y partneriaid eraill yn GA2, i drosglwyddo'r Bwrdd Uchelgais i'r CBC.

x. Sefydlu'r Cytundeb Llywodraethu gyda'r CBC ynghylch swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais Economaidd, ac unrhyw gytundebau "awdurdod lletya" arall, gyda'r CBC yn ofynnol i weithredu'r trefniant arfaethedig.

xi. Penodi swyddogion statudol.

xii. Paratoi cynllun busnes 12 mis.

xiii. Cytuno ar sut caiff trafodion busnes y CBC eu sefydlu / eu cynnal.

xiv. Paratoi a mabwysiadu Rheolau Sefydlog CBC a dogfennaeth llywodraethu sylfaenol.

**Ymhlygiadau Ariannol**

45. Byddai cymeradwyo’r penderfyniad a geisir yma ynglŷn â’r y model llywodraethu ddim yn ychwanegu unrhyw ymhlygiad ariannol i’r Cyngor. Fodd bynnag, mi fydd cost anorfod parhaus (beichiau gweinyddol yn gwasanaethu'r CBC a gofynion adnoddau proffesiynol) i'r awdurdodau lleol fedru gweinyddu a chyflawni swyddogaethau statudol y CBC. Nid yw'r costau hyn wedi'u adnabod yn llawn eto, ond mae’r cyfeiriad mae’r adroddiad hwn yn gosod am wneud i'r CBC weithio’n effeithiol tra’n isafu'r baich ariannol ar y Cyngor.

**Dyletswyddau Ehangach**

46. Wrth ddatblygu y cynigion dylid dal sylw at, ymysg materion eraill:

- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a safonau iaith,
- Dyletswyddau sector gyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau sector gyhoeddus Cymreig). Yn unol a’r dyletswyddau cyfreithiol yma wrth wneud penderfyniadau mae rhaid i’r Cynghorau dalu sylw dyledus i’r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig.
- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd , amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau lleisant sef Cymru sydd yn lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda cymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu a sy’n gyfrifol ar lefel byd eang.

47. O dan Reoliadau Llywodraeth Cymru, mae'r CJC yn ddarostyngedig i'r Ddeddf Cydraddoldeb, Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, a deddfwriaeth arall, yn yr un modd ag awdurdodau lleol.

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Mae sawl elfen ynghlwm a sefydlu Cyd Bwyllgor Corfforedig ac yn deillio o ganlyniad i'r penderfyniad i greu y cyrff yma yn Ebrill 2021. Fe ddarperir trosolwg o'r rhain yn yr adroddiad ond yn gyffredinol maent yn faterion sydd i'w penderfynu gan y corff newydd. Mae ffocws yr adroddiad yn briodol felly ar statws Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'r Cynllun Twf yn benodol, a sut mae ymateb i ddyfodiad y CBC o safbwynt y project yma. Mae cydnabyddiaeth yn yr adroddiad mai penderfyniad mewn egwyddor sydd ei angen ar y pwynt yma er caniatáu gwaith datblygol pellach er dod a chynnig terfynol gerbron. Mae hyn yn briodol o ystyried y materion sydd angen eu cyfarch a deall yn well. Rwyf wedi cael mewnbwn cyson i ddatblygiad yr adroddiad a'r argymhelliad yma ac maent yn adlewyrchu fy nghyngor.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **21 Rhagfyr, 2021** |
| **Aelod Cabinet:** | **Cyng. Catrin Wager** |
| **Swyddogion Cyswllt:** | **Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol** |
| | **Huw Williams, Pennaeth Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd** |
| **Rhifau Cyswllt:** | **32402 / 32426** |

**Pwnc: ADRODDIAD HERIO PERFFORMIAD AELOD CABINET ADRAN PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL AC ADRAN YMGYNGHORIAETH GWYNEDD**

---

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

---

**<u>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</u>**

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Priffyrdd a Bwrdeistrefol. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Hoffwn eich atgoffa bod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod o Dîm Rheoli'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu perthnasol.

1.3 Ar y cyfan rwy'n gyfforddus gyda pherfformiad y mesurau sydd wedi eu hadrodd arnynt. Mae cryn waith yn wynebu'r Adran er sicrhau y byddwn yn cyrraedd perfformiad ailgylchu statudol Llywodraeth Cymru erbyn 2025. Bydd cyfle i edrych ar fesurau eraill fel byddwn yn cwblhau'r

prif brosiect (Cymunedau Glan a Thaclus) ac yn edrych ymlaen at ddatblygu'r targed a llunio rhaglen weithredu.

**2. PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023 (Blaenoriaethau Gwella)**

2.1 Nodir isod cynnydd sydd wedi ei wneud hyd yma yn erbyn prosiectau blaenoriaethau gwella'r Adran. Yn gyffredinol, teimlaf fod bob prosiect ar hyn o bryd yn mynd i'r cyfeiriad cywir yn erbyn yr addewidion yr ydym wedi eu gwneud yng Nghynllun y Cyngor. Fodd bynnag, rhan bwysig o'r gwaith yw ymgysylltu â'r cymunedau er deall a chlywed beth sydd yn bwysig iddynt. Bydd y gwaith yma yn cyd-fynd â 'Cynllun Ymgysylltu Ardal Ni 2035'.

**<u>Cymunedau Glan a Thaclus</u>**

Fel rhan o'r prosiect hwn, byddwn yn cydweithio gyda thrigolion a chymunedau Gwynedd drwy ymgysylltu er mwyn datblygu Cynllun Gwireddu i gyd-fynd â'r flaenoriaeth yma gan ehangu a datblygu partneriaethau cymunedol i wella ansawdd ac edrychiad y Sir. Mae'r egwyddorion a gytunwyd arnynt i'w gweld isod.

Bwriad yr Adran yw cyd-weithio gyda thrigolion a chymunedau Gwynedd i sicrhau cymunedau glan a thaclus trwy:

1. Cyd-weithio hefo trigolion a chymunedau Gwynedd
2. Sicrhau Cymunedau glan a thaclus
3. Ble mae deunyddiau yn aros mewn defnydd cyn hired â phosib, gyda'r deheuad o ddod yn Sir ddiwastraff
4. Parchu a diogelu ein hamgylchedd arbennig.

Fel amlygais uchod, bydd y gwaith yma yn dilyn amserlen 'Cynllun Ymgysylltu Ardal Ni 2035' sydd yn awyddus i ddefnyddio fforwm rhyngweithiol 'Engagement HQ' i gymunedau drafod amryw faterion. Mae'r meddalwedd yma yn cael ei ddefnyddio gan nifer o Gynghorau eraill er mwyn cynnal ymgynghoriadau llwyddiannus a modern. Bydd yr Adran hefyd yn cychwyn ar waith ymgysylltu â staff/gweithlu. Rydym yn y broses o drefnu grwpiau ffocws rhithiol ble fydd cyfle i staff rannu eu syniadau/barn ynglŷn â sut i gyflawni 'cymunedau glan a thaclus'. Mae tîm tasg wedi ei sefydlu gyda chyfarfodydd yn cymryd lle yn gyson.

Fel rhan o'r rhaglen 'Ymgysylltu Ardal Ni' casglwyd sylwadau am yr hyn sy'n bwysig i drigolion pob ardal adfywio yn ystod Medi/Hydref 2021. Roedd rhan helaeth o'r sylwadau yn ymwneud â blerwch a diffyg buddsoddiad mewn harddu ein cymunedau. Gwelir isod rhai o'r sylwadau a gesglir:

***'Dim digon o wario ar isadeiledd i uwchraddio/tacluso' (Bro Ardudwy).***

***'Angen gwaith i dwtio a gwella safon, llwybrau, coedwigoedd, gwrychoedd, waliau' (Bro Peris).***

***'Mwy o brosiectau i harddu'r gymuned a dod a'r gymuned at ei gilydd' (Bro Peris).***

***'Ardaloedd yn y dref yn edrych yn flêr e.e. Stryd y Llyn' (Ardal Caernarfon).***

Byddaf yn eich diweddaru ar y prosiect hwn yn fy adroddiad nesaf.

**<u>Cryfhau Cyfathrebu ac Ymgysylltu</u>**

Mae'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn weledol iawn gydag agweddau'r gwasanaeth yn cyffwrdd ar bob trigolyn trwy'r Sir. Gellir ychwanegu gwerth at waith yr Adran drwy gynlluniau cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol; er enghraifft ymgyrchoedd atal mân sbwriel neu faw ci, neu ymgyrchoedd a chanllawiau i annog ail-ddefnyddio, ail bwrpas a lleihau gwastraff. Mae hefyd yn hynod bwysig fod trigolion yn hyderus yng ngwasanaethau'r Adran a bod eu pryderon ac ymholiadau yn cael eu hymdrin â nhw'n effeithiol.


Mae'r prosiect hwn wedi cychwyn yn ddiweddar gan ddechrau drwy adolygu ein trefniadau cyfathrebu cyfredol, sefydlwyd grŵp tasg gyda chynrychiolwyr trawsadrannol (tîm Galw Gwynedd, tîm y we a'r Uned Gyfathrebu ac Ymgysylltu Corfforaethol). Mae'r gwaith o fapio ein prosesau er sicrhau eu bod yn gywir a chyfredol yn weithredol. Fel grŵp, rydym wedi adnabod bod angen gwell ddefnydd o'r system FFOS er cryfhau ein ffrydiau cyfathrebu gyda thrigolion Gwynedd. Er enghraifft, mae modd hysbysu rhestr o gyfeiriadau o fewn y system os yw cerbyd wedi torri lawr neu os oes unrhyw fater arall yn effeithio eu diwrnod casglu. Felly, mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal â'r Arweinyddion Tîm er mwyn gwneud defnydd o'r nodwedd yma o fewn FFOS.

Prosiect arall sydd ar ddechrau ac yn gysylltiedig i'r flaenoriaeth gwella hwn yw'r 'Prosiect Mapio Gwasanaethau'. Gobaith y prosiect hwn fydd i fapio ein hasedau/gwasanaethau ar wefan y Cyngor. Bydd modd i drigolion/staff weld nifer o asedau/gwasanaethau'r adran megis lampau stryd, biniau stryd a gwaith ffordd. Wrth ddewis ased neu wasanaeth bydd statws yn cael ei arddangos. H.y. os bydd rhywun wedi adrodd problem gyda lamp stryd mi fydd hynny yn ymddangos wrth statws yr ased a phryd yn union bydd yr ased yn derbyn sylw gan aelod o staff. Gobeithiwn bydd y prosiect hwn yn cryfhau ein ffrwd cyfathrebu â thrigolion Gwynedd drwy rannu manylion ein gwasanaethau/asedau mewn ffordd arloesol a modern.

**Prosiectau Eraill**

**<u>Rhaglen Newid Goleuadau Stryd i LED</u>**

Yn yr adroddiad diwethaf, nodais fod y gwaith o newid ein goleuadau stryd ac arwyddion i dechnoleg LED yn parhau. Mae'r Gwasanaeth Goleuo yn gweithio ar amnewid goleuadau stryd ac arwyddion i dechnoleg LED gyda threfniant o bylu yn ogystal. Mae'r gwaith yma'n parhau ac yr ydym yn y flwyddyn olaf o'r prosiect erbyn hyn ac yn falch o adrodd bod oddeutu 15,000 o lampau wedi eu newid gydag oddeutu 2,500 yn weddill. Ers 2015/16, rydym wedi newid dros 14,300 o oleuadau ac arwyddion stryd i dechnoleg LED. Mae'r graff isod yn amlygu lleihad yn allyriadau CO2 (Goleuadau Stryd) o ganlyniad y prosiect. Yr ydym yn rhagweld y bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth, 2022.




**<u>Prosiect Adolygu Rheolaeth Fflyd y Cyngor</u>**

Un elfen o'r prosiect hwn yw rheoli defnydd o gerbydau'r Cyngor. Mae'r prosiect yma yn parhau i fod ar waith ond mae oedi wedi bod gyda'r gwaith oherwydd gofynion cyfreithiol pendant sydd wedi ei osod allan mewn cyfraith cyflogaeth. 'Rwyf yn falch o adrodd ein bod erbyn hyn, gyda chymorth Gwasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor wedi cychwyn y drefn ymgynghori gyda'r staff. Disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau erbyn y flwyddyn ariannol newydd.

Elfen bwysig arall o'r prosiect rheolaeth fflyd yw di-garboneiddio'r fflyd. Mae hyn yn cyd-fynd gyda 'Blaenoriaeth Gwella 8 Cynllun y Cyngor 2018-23 - Ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd'. Yr ydym wedi ymrwymo i gymryd camau pendant i leihau allyriadau carbon ac ymdrechu am ddyfodol ddi-garbon sydd yn cynnwys edrych am ffyrdd arloesol.

Yr ydym wedi cynnal adolygiad o holl gerbydau'r Cyngor gyda chymorth Llywodraeth Cymru ac yn brysur yn llunio rhaglen weithredu. Byddwn yn edrych ar gyfleon o ychwanegu at ein fflyd fechan o gerbydau trydan ynghyd ac uchafu pwyntiau gwefru o fewn ein depo a swyddfeydd ac mae grant o £300k wedi ei dderbyn ar gyfer yr elfen yma. Bydd y gwasanaeth casglu yn derbyn dau gerbyd casglu ysbwriel trydan a bydd y rhain gyda ni cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Mae'r Pennaeth Adran hefyd yn eistedd a'r fwrdd Hwb Hydrogen Deeside sydd yn bwysig iawn wrth ystyried technoleg amgen yn y maes cerbydau trwm megis cerbydau gwastraff a cherbydau graeanu.

**Prosiect Caeau Chwarae**

Rydym yn gwybod bod meysydd chwarae yn bwysig i blant, rhieni a gofalwyr plant ond oherwydd bod offer chwarae'n ddrud ac arian yn hynod brin, mae eu cynnal mewn modd sy'n ddiogel i blant a phobl ifanc allu eu mwynhau yn heriol. Mae'r Adran yn ail afael â'r prosiect hwn gan ddiweddaru'r gwaith a wnaethpwyd hyd at fis Mawrth, 2020. Mae'r prosiect yma yn edrych ar ddiddordeb Cynghorau Cymuned/Tref neu gymuned/grwpiau o edrych ar ôl a rhedeg caeau chwarae plant.

Mae'r Adran eisoes wedi llythyru â chynghorau cymuned am eu sylwadau cychwynnol ond bu oedi oherwydd yr argyfwng, erbyn hyn mae'r Gwasanaeth wedi ail-afael yn y trafodaethau. Bydd yr Adran hefyd yn cysylltu â grwpiau a phartneriaid eraill o fewn y gymuned byddai â diddordeb partneriaethu gyda'r gwasanaeth. Mae risg i'r prosiect yma gan ar hyn o bryd ond oddeutu 5 Cyngor Cymuned sydd wedi dangos diddordeb i gynnal trafodaethau pellach. O ganlyniad bydd y Gwasanaeth yn agor trafodaethau gyda grwpiau/diddordeb cymunedol ac yn edrych ar gyfleon o gydweithio yn hytrach na throsglwyddo'r cyfrifoldeb yn ei gyfanrwydd. Yr ydym o'r farn bydd adnodd caeau chwarae yn flaenoriaeth gan ein trigolion wrth symud allan o'r cyfnod argyfwng. Mae'r Gwasanaeth wedi gweld toriadau sylweddol ac mae wir angen buddsoddi yn y cyfarpar erbyn hyn. Drwy agor y trafodaethau gydag eraill, yr ydym yn rhagweld cyfleon yn codi er denu grantiau.

Byddwn yn ail-afael yn y gwaith yma, a bydd yr Adran yn cyflwyno bid i'r gronfa trawsffurfio gan edrych ar gynllun amgen posib. Yr ydym hefyd wedi cyflwyno cais grant i wella'r ddarpariaeth chwarae mewn saith cae chwarae o fewn y Sir.

## 3. PERFFORMIAD

3.1 Yr ydym yn parhau mewn cyfnod gwahanol iawn gyda chryn bwysau ar ein hadnoddau a staff. Gallwn fod yn falch fodd bynnag o'r hyn sydd wedi'i gyflawni mewn amgylchiadau newydd a heriol ac mae'r Adran wedi llwyddo i sicrhau parhad eu gwasanaethau tra'n cydymffurfio â gofynion yr argyfwng. O ran mesurau'r Adran, 'rwyf yn eithaf hapus gyda'u perfformiad. Fodd bynnag, tynnaf eich sylw i'r prif faterion sydd yn codi.

3.2 Yn yr adroddiad diwethaf nodais fod y newidiadau i'r drefn newydd o gasglu gwastraff yn digwydd yn ardal Meirionnydd yn ystod diwedd y flwyddyn 2020/21, rwyf yn falch o gofnodi bod y gwaith hwn wedi ei gyflwyno ar amser a'r prosiect bellach wedi ei gwblhau ar draws y Sir.


3.3 **Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu** – fel sydd wedi ei adrodd arno yn flaenorol, mae'n hanfodol ymdrin â gwastraff mewn modd cywir os am amddiffyn ein hamgylchedd. Mae Economi sy'n hybu ail-ddefnyddio ac ailgylchu gan leihau gwastraff (Economi Gylchol) yn hanfodol wrth i ni weithio at y nod yma.

Yn ystod y flwyddyn olaf, llwyddwyd i ddenu gwerth £1.4m o arian grant er cyflawni prosiectau yn y maes yma. Nodir yma ddiweddariad ar rai o'r prosiectau sydd wedi neu yn cael sylw:

- *Addasu Canolfan Ailgylchu Llandygai, Bangor gan gynnwys cyflwyno siop ail-ddefnyddio* - gwaith wedi ei gwblhau ar y safle a bellach yn llawn weithredol - ein siop yn rhaglenedig i agor yn gynnar o fewn flwyddyn newydd.
- *Prosiect Caffi Trwsio* – sefydlu rhwydwaith o siopau ar draws y Sir fydd yn gweld cyfleon i hyfforddi a thrwsio eitemau.
- *Addasu Canolfan Trin Deunyddiau Caergylchu, Caernarfon* – gwaith wedi ei gwblhau ac yn llawn weithredol, hyn wedi gwella safon y deunyddiau wrth eu trin.
- *Prosiect darpariaeth bwyd cymunedol* - yr ydym wedi darparu 11 hwb bwyd gydag offer pwrpasol ac mae'r rhain i gyd wedi eu dosbarthu erbyn hyn. Mae amryw o'r hybiau wedi derbyn oergelloedd a rhewgelloedd masnachol er mwyn darparu bwyd i ystod eang o bobl o fewn eu cymunedau. Byddem yn adeiladu ar y cyswllt sydd wedi ei wneud yn barod er edrych ar ehangu ar gyfleon pellach.
- *Prosiect Warws Werdd ar y cyd gydag Antur Waunfawr* - gwaith isadeiledd ar y safle wedi ei gwblhau.
- *Prosiect caffi trwsio a Phrosiect ail-ddefnyddio/eitemau swmpus* - dyma gyflwyno darpariaeth ar y stryd fawr mewn sawl canolfan ar gyfer cyfleon trwsio eitemau er gallu eu hail-ddefnyddio.
- *Gorffen dosbarthu'r Cartgylchu* – targedu ardaloedd gwledig y Sir.


**Biniau Ailgylchu ar y Stryd** - Mae'r Adran yn edrych ar gyflwyno biniau ailgylchu man ysbwriel o fewn ein prif canolfannau, byddwn yn ariannu'r biniau yma drwy grant Trefi Taclus. Byddwn yn cydgordio negeseuon codi ymwybyddiaeth y cyhoedd i sicrhau eu bod yn cyflwyno deunyddiau gwaredu yn y biniau cywir.

Mae'r graff isod yn amlygu ein perfformiad ailgylchu fesul blwyddyn a fesul chwarter. Rydym yn bryderus bod effaith gwastraff gweddilliol yn cael effaith ar ein perfformiad sydd i'w weld yn chwarter 2 eleni. Bydd angen monitro'r sefyllfa dros chwarter 3 er sicrhau ein bod ddim yn disgyn ymhellach.



| | Q1 | Q2 | Q3 | Q4 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **2018/2019** | **65%** | **62%** | **62%** | **62%** | **62.31%** |
| **2019/2020** | **64%** | **65%** | **66%** | **64%** | **64.74%** |
| **2020/2021** | **67%** | **69%** | **63%** | **62%** | **65.87%** |
| **2021/2022** | **66%** | **63%** | | | **64.64% ( hanner blwyddyn)** |
| **2022/2023** | | | | | |
| **2023/2024** | | | | | |
| **2024/2025** | | | | | **Rhaid bod ar 70%** |

Mae cynnydd wedi ei weld yn y gwastraff gweddilliol a gesglir sydd yn bryder ond o bosib yn ddisgwyliedig. Mae'r graff yma yn amlygu'r sefyllfa gan gymharu â phwysau gweddilliol am yr un cyfnod yn 2020. Bydd angen cadw golwg ar y sefyllfa dros y flwyddyn gyfredol.



Yr ydym yn delio ac oll o ddeunyddiau ailgylchu a gesglir ar draws y Sir gan eu didoli a phecynnu i'w hanfon i gael eu prosesu.  Mae'r tabl isod yn rhoi syniad o bwysau o ddeunyddiau ailgylchu a gesglir o'r ffrwd gwastraff tai.

| **Deunydd** | **Tunelli 2021/22 (Ebrill-Medi)** | **I ble mae'n mynd** | **Y broses ailgylchu** |
|---|---|---|---|
| Gwydr | 2,531.86t | Rydym yn gyrru'r gwydr a gesglir i gwmni ailgylchu Berryman yn Ne Kirby. | Mae Berryman yn arbenigo mewn dulliau newydd o ymdrin â gwydr er mwyn rhoi ail-fywyd i'r deunydd. Mae'r deunydd newydd yma'n cael ei ddefnyddio i gynhyrchu poteli/jariau newydd i gynhyrchion adeiladu, inswleiddio a llawer mwy. |
| Poteli Plastig | 510.44t | Jayplas Recycling.<br>(Mae gan y cwmni yma amryw o safleoedd ar draws y DU sydd yn arbenigo mewn ailgylchu gwahanol fathau o blastigion i'r safon uchaf). | Yma, caiff y poteli plastig eu hanfon trwy system brosesu er mwyn cynhyrchu 'PET Flakes' sydd yna'n cael eu gwerthu i gwmnïau sydd yn eu mowldio er mwyn creu pecynnau bwyd newydd. |
| Papur | 1,6102.20t | Melin Bapuru Palm sydd wedi ei leoli ger King's Lynn. | Yma, caiff ein llwythi papur ei gyrru trwy beiriant papur newydd. Hwn yw'r peiriant mwyaf o'i fath yn y byd. Ar gyflymder o bron i 2,000m/munud mae ganddo'r gallu i gynhyrchu 400,000 tunnell fetrig o bapur newydd y flwyddyn. |
| Bwyd | 2,693.78t | Safle Treulio Anerobig GwyriAD yng Nghlynnog Fawr. | Mae GwyriAD - sy'n cael ei gynnal gan Biogen ar ran y Cyngor - yn ganolfan arbenigol sy'n troi gwastraff bwyd yn ynni trydan i'r grid cenedlaethol. Mae hefyd yn cynhyrchu  gwrtaith ar gyfer tir amaethyddol. |
| Caniau Dur | Cyfanswm o 252.73t o ganiau dur/alwminiwm. | EMR<br>(European Metal Recycling). | Caiff ein caniau dur eu prosesu yn safle EMR ger Lerpwl. Yma, mae ein caniau yn cael eu torri yn fan drwy ddefnyddio 'mega shredder' sydd â'r pŵer i ailgylchu car bob 15 eiliad. |
| Caniau Alwminiwm | | Tandom Metallurgical Recycling. | Mae Tandom yn defnyddio llinell rwygo ar gyfer ailgylchu ein caniau alwminiwm. Trwy'r llinell rwygo yma caiff ein caniau eu torri lawr i gronynnau 50mm. Yna, caiff y dur ei wahanu trwy ddefnyddio magnet. |
| Gwastraff Gardd | 1,904.76t | Gwrtaith Gwynedd. | Mae'r gwastraff gwyrdd sydd yn cael ei brosesu ar safle Harri Parri/Gwrtaith Gwynedd ger Pwllheli yn cael ei droi yn gyson mewn gwynt compost. Mae rhan helaeth o'r deunydd wedi'i brosesu yn cael ei gompostio a'i ddefnyddio ar gaeau ffermwyr- gan gynnwys un Harri. |
| Gwastraff Gweddilliol | Domestig – 9,198.48t<br>Masnachol – 2768.58t<br>Glanhau Strydoedd – 978.82t<br>Swmpus – 141.2t<br>Canolfannau Ailgylchu – 1382.26t | Parc Adfer. | Mae ein gwastraff gweddilliol yn cael ei brosesu yn safle Parc Adfer ar Lannau Dyfrdwy. Mae'r safle yma yn gyfleuster gwres a phŵer sy'n cynhyrchu digon o egni i bweru mwy na 45,000 o gartrefi a busnesau yn y UD. Fe sefydlwyd y safle fel rhan o Bartneriaeth Cyhoeddus-Preifat gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru i wasanaethu pum awdurdod lleol sy'n rhan o Bartneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru. |

Mae pwysau hefyd ar yr Adran mewn perthynas â'r galw sydd am gynhwysyddion, mae'r lefelau y tu hwnt i beth ydym yn gallu ymdopi o fewn ein rhaglen/capasiti ac yn gweld rhestr aros ar hyn o bryd yn hirach na be a ddisgwylir. Yr ydym yn gweithio yn galed er lleihau ar yr amser y maent yn disgwyl.

**Adolygiad Ffordd Gwynedd ar y Gwasanaeth Gwastraff** - Mae llithriad wedi bod o ran cychwyn yr adolygiad Ffordd Gwynedd oherwydd diffyg staff o fewn y maes i'w berchnogi/arwain. Bydd y gwaith rŵan yn cychwyn erbyn diwedd fis Tachwedd.

3.4 **Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd** - Wedi adolygiad Ffordd Gwynedd o'r gwasanaeth, mae'r drefn newydd o weithio wedi ei roi yn ei le ers y 1af o Ebrill eleni. Da yw nodi bod y gwaith yma yn llwyddiant ac wedi cyfarch y drefn hanesyddol o weithio. Yr ydym hefyd yn y broses o ddiweddaru ein Cynllun Cynnal Asedau er adlewyrchu gofynion newydd y Cod Ymarfer sydd â phwyslais ar reoli risg. Yr ydym hefyd yn ail edrych ar ein trefn cynnal ymylon ffyrdd a threfn ymdrin â chwyn a bydd yn rhan o waith adolygiad ein Cynllun Cynnal Asedau priffyrdd.

3.5 **Gwasanaeth Glanhau Strydoedd** - Mae cryn bwysau ar y gwasanaeth hwn ers y cyfnod yr argyfwng lle gwelir mwy o fan ysbwriel, biniau yn llawn a phroblemau o faw ci i'w weld wedi cynyddu. Tra ein bod yn cadw ar ben y sefyllfa, 'rwyf yn rhagweld y daw materion fel hyn i'r wyneb yn y gwaith ar y prosiect 'Cymunedau Glan a Thaclus'. 'Rwyf yn falch o adrodd hefyd y bu i ni allu cynnal ymgynghoriad a'r Orchymyn Cŵn sydd i'w gyflwyno ac mae llawer o ddeunydd da wedi ei gofnodi o'r ymgynghoriad hwn. Elfen arall o waith fydd yn rhan o'r gwasanaeth hwn fydd 'Timau Cymunedau Glan a Thaclus'. Cafodd adroddiad ei gyflwyno gerbron y Cabinet ar y 30/11/21 yn amlinellu ein bwriad o sefydlu timau gwaith er mwyn gwella delwedd a harddu ein cymunedau o fewn y Sir. Rydym yn falch o adrodd bod ein penderfyniad wedi ei gefnogi yn unfrydol.

3.6 **Gwasanaeth Profedigaeth** - drwy heriau'r pandemig Covid-19 'rwyf yn hynod falch o allu adrodd bod y Gwasanaeth Profedigaeth/Amlosgfa wedi gallu parhau i gynnig y gwasanaeth llawn i drigolion Gwynedd drwy gydol 2020/21.

3.7 **Clwy yr Onnen** - Mae tîm bellach wedi ei sefydlu i ddelio â'r clwyf. Prif bwrpas y tîm yw cynnal archwiliadau o goed onnen ar dir a ffyrdd y Cyngor, asesu eu cyflwr â llunio rhaglen waith i ddelio â'r rhai sy'n peri risg diogelwch i'r cyhoedd. Yn ogystal, byddant yn cynnig cyngor i adrannau'r Cyngor a pherchnogion coed preifat mewn perthynas â'r clwyf ac yn paratoi pecynnau gwybodaeth ac adnoddau amrywiol ar wefan allanol y Cyngor er mwyn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd amdano.

Rôl bwysig arall y tîm yw gosod rhybuddion cyfreithiol ar berchnogion preifat os yw eu coed yn peri risg diogelwch i ddefnyddwyr tiroedd y Cyngor.

Er bydd y tîm yn gweithredu i bob pwrpas fel 'siop un stop', mewn perthynas â thiroedd a ffyrdd y Cyngor, ni fyddant yn cymryd drosodd cyfrifoldebau archwilio a thrin coed rheolaidd pob adran.

Ers i’r tîm gael ei sefydlu, maent wedi cychwyn ailedrych ar rai o'r safleoedd a arolygwyd gan y contractwyr arbenigol i benderfynu a yw'r coed a ddynodwyd yn rhai coch yr adeg hynny wedi gwaethygu a hefyd a yw coed cyfagos a ddynodwyd yn flaenorol yn ambr wedi dirywio. Mae’r tîm yn dilyn dull asesu risg coed cydnabyddedig i gyflawni hyn a byddant yn defnyddio'r canlyniadau i ffurfio rhaglen torri coed y flwyddyn ariannol hon (mae cyllideb refeniw o £150,000 ar gael ar gyfer y gwaith). Dylid nodi y bydd coed sydd wedi'u cynnwys ar y rhaglen yn cael eu blaenoriaethu ar sail risg i'r cyhoedd ac nid yn ôl ardal, adran neu unrhyw ddull arall nad yw'n seiliedig ar risg.

Mae coed yn amsugno carbon ac yn ei storio tra’n rhyddhau ocsigen yn ôl i'r awyr. O ganlyniad, fe all ein rhaglen torri coed effeithio ar allu'r Cyngor i gyflawni ei darged o ddod yn garbon niwtral erbyn 2030. I’r perwyl hwn, mae’r tîm yn gweithio’n agos iawn gyda’r Gwasanaeth Cefn Gwlad yn yr Adran Amgylchedd i edrych mewn i ffyrdd o ddigolledu am hyn a cheisio partneru gydag awdurdodau a sefydliadau eraill i baratoi cynlluniau ar gyfer tyfu ac ailblannu coed sy'n cael eu torri.

3.8 **Achrediadau Bsi** - Mae’r Adran wedi llwyddo gyda throsglwyddo o Achrediad 18001 (Bsi) a chyrraedd gofynion 45001 oedd yn ofynnol i’w gwblhau cyn yr Hydrefn eleni. Mae hyn yn golygu ein bod yn cwrdd â gofynion uchel o gyflwyno gwasanaeth gyda systemau rheoli a threfniadau Iechyd a Diogelwch sydd yn cael eu monitro gan Bsi ar gyfer yr achrediad.

Mae awdit yn cael ei gario allan ddwy waith y flwyddyn er sicrhau ein bod yn cadw at y gofyn a cheir hyn ei wneud ar wahanol feysydd o fewn ein ‘scope’.

Yr ydym hefyd a’r Achrediadau canlynol sef:

- Bsi 14001 – Amgylchedd
- Bsi 9001 – Safon

Yr un yw'r drefn o ran awdit lle bydd yr archwiliwr Bsi yn ymweld ar Adran ddwy waith pob blwyddyn er cynnal archwiliad manwl o’n trefniadau.

## 4. SEFYLLFA ARIANNOL/ARBEDION

4.1 Bu i'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ddiweddu blwyddyn ariannol 2020/21 mewn sefyllfa ariannol gytbwys yn sgil derbyn grantiau gan y Llywodraeth i’w digolledu am eu gwariant ychwanegol a cholled incwm oherwydd y pandemig.

4.2 Yn yr adolygiad ariannol a gyflwynwyd i’r Cabinet ar y 12fed o Hydref adroddwyd y rhagwelir gorwariant o 982k gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol am 2021-22. Mae’r gorwariant a’r problemau amlycaf i’w gweld unwaith eto eleni ym maes casglu gwastraff. Mae’r Adran wedi comisiynu adolygiadau gan Ffordd Gwynedd a WRAP i edrych yn fanwl ar y Gwasanaeth yma. Mae hefyd nifer o arbedion hanesyddol nad sydd eto wedi eu gwireddu, ac mae hyn yn ei dro yn rhoi pwysau ychwanegol ar gyllidebau’r Adran. Bydd yr adolygiad manwl nesaf yn cael ei gynnal ar ddiwedd mis Tachwedd a’i adrodd i’r Cabinet yn gynnar ym mis Ionawr.

**5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

Bydd yr Adran yn rhoi blaenoriaeth i symud y prosiectau a amlygwyd yn eu blaen gan hefyd rhoi blaenoriaeth i leihau ffigwr gorwariant a nodwyd.

Gydag Adran sydd yn cyflwyno Gwasanaethau rheng flaen, byddwn yn parhau gyda'r nod i gyflwyno'r gwasanaeth gorau i drigolion Gwynedd.

**<u>Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd</u>**

**6. CYFLWYNIAD**

6.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros YGC. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

6.2 Ar y cyfan, rwy'n fodlon gyda pherfformiad y mesurau rwyf yn gyfrifol amdanynt, ac yn diolch i'r Adran am eu gwaith. Rwy'n fodlon â pherfformiad yr Adran yn gyllidol.

6.3 Yn sgil cyhoeddi Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru (Gorffennaf 2020) rwyf yn edrych ymlaen at ddatblygu'r Strategaeth Leol. Mi fydd hyn yn gyfle i roi blaenoriaethau a mesurau priodol mewn lle i leihau risg llifogydd a gwneud cymunedau Gwynedd yn fwy diogel.

**7. PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023**

Nid yw'r Adran yn arwain ar unrhyw brosiectau yng Nghynllun y Cyngor 2018-23. Mae'r Adran Amgylchedd yn arwain ar y Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd gyda YGC yn arwain ar yr agwedd rheoli perygl llifogydd ac erydiad arfordirol sy'n ffurfio rhan bwysig o'r cynllun.

Isod gwelir gwybodaeth am brif agweddau'r gwaith yma, gan nodi bod risgiau 2.1 a 2.2 yn rhan sylfaenol o adnewyddu'r Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydiad Arfordirol Lleol (Strategaeth Leol) sydd i gael ei gwblhau erbyn Hydref 2023. Mi fydd y Strategaeth Leol yn bwydo i mewn i gynllun Newid Hinsawdd y Cyngor.

Mae'r risgiau sydd yn 2.1 a 2.2 wedi cael eu herio gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau.

7.1 **Risg o lifogydd mewndirol oherwydd effaith newid hinsawdd**.

Mae fy Ngrŵp Prosiect Llifogydd rhwng adrannol yn y broses o flaenoriaethu ardaloedd mewndirol drwy lenwi gwybodaeth i'r matrics blaenoriaethu dalgylchoedd.

Yn ogystal mae'r Adran yn cadeirio cyfarfodydd trawsadrannol i sicrhau ymwybyddiaeth o brosiectau llifogydd, ac i geisio ychwanegu elfennau adrannau eraill sydd yn uchafu gwerth i'r prosiectau hynny.

7.2 **Risg o lifogydd o'r môr mewn ardaloedd arfordirol oherwydd effaith newid hinsawdd.**

Mae'r Adran yn gweithio i adnabod cymunedau bregus o ran risgiau o effaith stormydd, erydiad a llifogydd arfordirol. Mae fy Ngrŵp Prosiect Llifogydd rhwng adrannol yn y broses o ffurfio matrics blaenoriaethu arfordirol. Wedyn mi fydd yr adran yn llenwi'r matrics i adnabod y rhestr o gymunedau bregus fydd angen cefnogaeth.

7.3 **Effaith newid hinsawdd ar Fairbourne.**

Mae'r ddogfen Fairbourne: Fframwaith i'r Dyfodol gyda 5 ffrwd gwaith sydd yn datblygu cynlluniau unigol - Cynllun Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FCERM), Cynllun Pobl a'r Amgylchedd Adeiledig, Cynllun Rheoli'r Isadeiledd, Cynllun Cefnogi Busnesau a Chynllun Amgylchedd Naturiol. Mae Bwrdd Prosiect Fairbourne Symud Ymlaen yn cynnwys cyrff canlynol; Cyngor Cymuned Arthog (Cadeirio), Cynghorydd Lleol Gwynedd, Cyngor Gwynedd Scottish Power, CNC, Llysgennad Cymunedol, Network Rail, Bwrdd Iechyd, Dŵr Cymru a Pharc Eryri.

Cynnydd diweddar fel yr isod;

- Gwaith wedi dechrau i gael cylch gorchwyl cyfredol mewn lle.
- Mae Rheolwr Prosiect dros dro mewn lle.
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) nawr yn arwain ar Gynllun Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Mae CNC yn y broses o adolygu cyflwr eu hasedau a darparu Achos Busnes Amlinellol (ABA).
- Mae Gwynedd yn arwain ar y Cynllun Pobl a'r Amgylchedd Adeiledig drwy weithio yn draws adrannol. Mae'r Achos Busnes Amlinellol Strategol yn symud ymlaen i asesu dichonoldeb gwahanol opsiynau i gefnogi'r gymuned. Fel rhan o'r gwaith yma mae'r Bwrdd wedi penderfynu bod angen cwblhau Asesiad Effaith ar Iechyd (Health Impact Assesment (HIA)) gyda'r gymuned. Mi fydd y gwaith yma hefyd yn dadansoddi dewisiadau'r boblogaeth. Mae hyn yn mynd i roi gwell gwybodaeth o'r gwir sefyllfa, ac ehangu ein gallu i gefnogi Cyngor Cymuned Arthog.

## 8. PERFFORMIAD

8.1 Mae'r flwyddyn yma'n parhau i fod mewn amgylchiadau newydd a heriol. Gallwn fod yn falch fod yr Adran yn llwyddo i sicrhau parhad eu gwasanaethau wrth gydymffurfio â gofynion yr argyfwng, a dal yn cyflawni ei gyfrifoldebau. O ran perfformiad yr Adran, 'rwyf yn hapus.

Mae Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy (YGC) yn gweithredu fel:

- Adran fasnachol sy'n dod ac incwm sylweddol i'r Cyngor.
- Ymgymryd â swyddogaethau statudol yn y maes dŵr a rheoli llifogydd.

Nawr tynnaf eich sylw i brif faterion YGC gan ddechrau hefo'r ochr fasnachol.

## 8.2 Gwaith Masnachol

8.2.1 Incwm a strwythur y gwaith masnachol.

Y pedwar gwasanaeth masnachol yw:

- Dŵr ac Amgylchedd
- Adeiladu ac Isadeiledd
- Busnes a Chyflawni Projectau
- Technegol

Mae'r flwyddyn yma eto yn un heriol i gael balans o waith gyda rhaglenni sawl cleient yn newid yn ystod y flwyddyn. Gallwn fod yn falch fodd bynnag o'r hyn sydd wedi'i gyflawni, ac mae'r Adran wedi llwyddo cael rhaglen waith cadarn.

O ran mesurau'r cyllidol, 'rwyf yn hapus gyda'u perfformiad sydd yn bwysig o gofio bod rhan helaeth o swyddogion yr Adran yn gweithio ar waith masnachol, sy'n dod ac incwm o dros £5.4 Miliwn y flwyddyn i'r Cyngor. Fel mae'r strwythur staff yn cael ei ehangu, mi fydd y targed incwm yn codi.

Mae patrwm gwaith am chwarter un a dau yn dilyn yr un patrwm gwaith a llynedd. Prif gleientiaid mae'r Adran yn gweithio iddynt gydag amcangyfrif o incwm 2021/22 isod:

| | | |
|---|---|---|
| NMWTRA (£2.1M) | Adran Tai ac Eiddo (£0.52M) | Adran Amgylchedd Trafnidiaeth a Gofal Stryd (£0.36M) |
| Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol £0.44M) | Cyngor Sir Ceredigion (£0.71M) | Llywodraeth Cymru (£0.82M) |

8.2.2 Nodaf fod 260 o brosiectau ar y llyfrau hyd yma gan yr adran yn amrywio o waith asesu pontydd a waliau cynnal ar ôl stormydd i waith adeiladu ysgolion fel Ysgol y faenol.

8.2.3 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r tîm amgylcheddol wedi bod yn gweithio ar sawl cynllun. Maent wedi cynnal sawl arolwg rhywogaethau gwarchodedig i sicrhau bod cynefinoedd naturiol yn cael eu gwarchod, ynghyd â darparu mesurau gwella amgylcheddol ar gyfer cynlluniau. Yn ogystal mae'r tîm yn manteisio ar gyfleoedd i ychwanegu elfennau sydd yn cynyddu bioamrywiaeth ar gynlluniau. Mae materion amgylcheddol a chynaliadwyedd yn dylanwadu ar bob math o ddatblygiadau. Mae diogelu cadwraeth a gwella'r amgylchedd yn holl bwysig ac yn nodweddion allweddol datblygu a gweithredu yn gynaliadwy.

Mae'r tîm yn gweithio ar sawl prosiect yn cynnwys y gwaith yr isod:

- Eleni mae ecolegwyr YGC wedi bod ar y safle yn cynnal dros 300 awr o arolygon ystlumod.
- Maent wedi cynnal arolwg o dros 500 o strwythurau lonydd dros yr haf, ar gyfer rhywogaethau a warchodir.
- Roeddem yn goruchwylio materion amgylcheddol ar y prosiect ffordd osgoi Caernarfon a Bontnewydd.
- Asesu materion amgylcheddol ar dros 20 o gynlluniau teithio llesol.
- Ymateb ar faterion o blanhigion goresgyniadau ar y rhwydwaith cefnffyrdd.

8.2.4 Mae’r timau risg llifogydd ac amgylcheddol yn darparu cyfraniad sylweddol at ddatblygu prosiectau newydd i sicrhau nad oes unrhyw brosiectau yn cael effaith niweidiol ar ein hamgylchedd naturiol. Wrth weithio yn fwy agos â natur mae’r adran wedi datblygu cynllun sydd yn rheoli llifo yn fwy naturiol yn ddalgylch y Winion. Mae’r cynllun yma wedi ei ddatblygu ar y cyd gyda Pharc Cenedlaethol Eryri i blannu coed, planhigion a chreu pyllau dwr yn y dalgylch.

8.2.5 Mae’r Adran yn falch iawn i gynnal a datblygu cyflogaeth leol drwy’r strwythur, sydd yn swyddi o safon. Oherwydd cyfleoedd yn y farchnad mae’r Adran wedi ychwanegu 9 swydd i’r strwythur eleni, gyda chynllun i ychwanegu 11 swydd arall dros y 18 mis nesaf.

8.2.6 Un her mae’r adran yn ei wynebu yw oherwydd bod swyddogion profiadol yn ymddeol a'r twf ym maint yr adran, bod angen fwy o swyddogion ar lefel arweinwyr timau ac uwch gyda chymwysterau proffesiynol. Mae cefnogaeth gref gan y tîm rheoli i swyddogion sydd gyda’r deheuad â’r gallu i ennill cymwysterau proffesiynol ac mae’r adran yn cydweithio gyda chyrff addysgiadol a chyrff proffesiynol.

8.2.7 Mae’r Adran yn rhoi blaenoriaeth uchel i hyfforddi staff. Mae’r Adran yn arwain yn Rhanbarthol ar Gytundeb Hyfforddi Proffesiynol Rhanbarthol Gogledd Cymru ar waith peirianyddol drwy sefydliad ICE (Institution of Civil Engineers). Ar hyn o bryd mae 8 swyddog dan hyfforddiant. Mi fydd hyn yn galluogi'r swyddogion i ddatblygu eu sgiliau, a’u galluogi i weithio ar gynlluniau mwy heriol. Mae’r staff hefyd yn ymwybodol fod cymwysterau proffesiynol yn allweddol i ddenu a churo gwaith.

8.2.8 Mae cynllun olyniaeth yr adran yn cynnwys 8 o uwch swyddogion sydd yn astudio cymwysterau Diploma Lefel 7 mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth Strategol yn cynnwys y pedwar Rheolwr Gwasanaeth.

**8.3 Ymgymryd â swyddogaethau statudol ym maes dŵr a rheoli llifogydd.**

8.3.1 Yn ystod y flwyddyn ariannol, mae'r Gwasanaeth Dwr ac Amgylchedd yn ei rôl cleient yn rheoli cynlluniau atal llifogydd a fydd yn gostwng y risg i drigolion Gwynedd. Mae’r Gwasanaeth Llifogydd yn gweithio ar 9 o geisiadau busnes er mwyn denu buddsoddiad i gyflawni mwy o brosiectau lliniaru llifogydd gan gynnwys Abermaw, Hirael, a Dalgylch Ogwen.

Y bwriad yw cwblhau'r prosiectau yma dros y 3-4 blynedd nesaf. I lwyddo mae angen ychwanegu rhai o’r 11 swyddi newydd i’r Gwasanaeth yma. Hefyd fel ar gynllun Prom y Gogledd, Abermaw (Arup) a chynllun Porthdinllaen (Mott MacDonald) mae angen cyflogi ymgynghorwyr arbenigol i roi capasiti digonol i gwblhau elfennau o’r Gwaith, neu’r prosiectau cyfan.

8.3.2 Mae rhaglen o gynlluniau mawr a bach ar draws y Sir i ymateb i ddigwyddiadau llifogydd blaenorol. Mae’r adran yn gweithio ar y cyd gyda’r adran priffyrdd i gwblhau 10 cynllun graddfa fach yn y flwyddyn ariannol bresennol, sydd yn lleihau risg i bron i 100 o dai.

8.3.3 Byddaf yn parhau i weithio gyda’r Adran i gynnal trafodaethau priodol gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Llywodraeth Cymru, cynghorau cymuned, ac eraill megis y sector breifat a’r trydydd sector.

8.3.4 Mae system i reoli asedau llifogydd wedi ei ddatblygu ar y cyd â'r gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth y Cyngor. Mae hyn yn galluogi'r Adran i storio'r holl ddata asedau, ynghyd â data ynglŷn â digwyddiadau llifogydd i gyd mewn un system.

8.3.5 Mae'r asedau i'w archwilio yn ystod y flwyddyn 2021/22, wedi eu cwblhau. Mae hyn wedi ein galluogi i wybod cyflwr ein hasedau a rhaglennu gwaith cynnal sydd ei angen. Mae'r gwaith archwilio asedau wedi bod gerbron y Pwyllgor Craffu Cymunedau. Mae gwaith atgyweirio asedau diffygiol wedi ei raglennu ac mae'r adran yn parhau i fonitro'r asedau yn y cyfamser.

8.3.6 Mae Prom y Gogledd, Abermaw wedi cael difrod a llifogydd o'r môr ers rhai blynyddoedd bellach. Mae'r adran wedi cwblhau yr Achos Busnes Amlinellol (ABA) ac ar fin dechrau gweithio ar y dyluniad manwl.

8.3.7 Mae ymchwilio i ddigwyddiadau o lifogydd yn ddyletswydd arnom o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr. Er yn y flwyddyn ariannol 2021/22 roedd 101 o ddigwyddiadau lifogydd mewnol.

8.3.8 Mae gwaith cymeradwyo ceisiadau Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) yn parhau ac mae nifer o geisiadau yn cynyddu. Roedd 48 o geisiadau wedi eu derbyn yn 2020/21 ac eleni mae'r adran wedi derbyn 47 cais yn barod. Mae'r tîm wedi cynyddu o un swyddog i gwrdd ar gynnydd y gwaith yma.

8.3.9 Mae cadw ein hasedau arfordirol yn saff i'r cyhoedd yn flaenoriaeth ac felly mae angen asesu risgiau o holl asedau arfordirol dan berchnogaeth y Cyngor, mae'r adran wedi cyflwyno cais achos busnes am arian i gyfarch y gwaith yma yn draws adrannol.

## 9. Achrediadau.

9.1 Achrediadau Buddsoddwyr Mewn Pobl (BMP).

Yn ôl yn Hydref 2018 bu i'r adran dderbyn achrediad "Buddsoddwyr mewn Pobl" am yr ail dro. Mae tair blynedd wedi mynd heibio, ac mae'n amser i'r adran adnewyddu'r achrediad "Buddsoddwyr mewn Pobl".

Ar ddiwedd y broses mi fydd yr adroddiad BMP â'r cynllun gweithredu yn plethu i mewn i gynllun busnes 2022/23 yr adran.

9.2 Achrediadau BSi.

Mae'r Adran wedi llwyddo gyda throsglwyddo o Achrediad 18001 (BSi) a chyrraedd gofynion 45001 oedd yn ofynnol i'w gwblhau. Mae hyn yn golygu ein bod yn cwrdd â gofynion uchel o gyflwyno gwasanaeth gyda systemau rheoli a threfniadau Iechyd a Diogelwch sydd yn cael eu monitro gan BSi ar gyfer yr achrediad. Hefyd mae gan yr adran Achrediadau canlynol sef - BSi 14001 - Amgylchedd a BSi 9001 - Safon. Y drefn o ran archwiliad yw bod archwiliwr BSi yn ymweld ar Adran dwywaith y flwyddyn er cynnal archwiliad manwl o'n trefniadau.

Mae archwiliadau mewnol ar waith yr adran yn cael ei gwblhau gan yr Uned Busnes ac mae'r adran yn cydweithio gyda'r adran y Trysorydd i gwblhau archwiliadau penodol e.e. eleni ar waith a chyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch CDM (Rheolau Construction Design Management 2015) yn y maes dylunio.

## 10. SEFYLLFA ARIANNOL/ARBEDION

10.1 Ar ddiwedd Chwarter 2 o flwyddyn gyllidol 2021/22, mae proffil gwaith sydd wedi ei rhaglennu yn gyson gyda phroffiliau'r blynyddoedd blaenorol ac mi oedd gwaith digonol ar gael gan ein cleientiaid am weddill y flwyddyn. Ond oherwydd bod cynllun ffordd Osgoi Llanbedri ddim yn mynd yn ei flaen mae risg o beidio â chyrraedd ein targed cyllidol, os na fydd yr adran yn darganfod ychwaneg o waith. Oherwydd hyn mae'r Adran yn amcangyfrif *diffyg* o £5,155 mewn incwm allan o gyfanswm o dros £5.4 Miliwn i'r Cyngor.

## 11. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

11.1 Bydd yr Adran yn rhoi blaenoriaeth i symud swyddogaethau statudol ym maes dŵr a rheoli llifogydd yn eu blaen, gan hefyd darganfod mwy o waith masnachol i gwrdd ar darged a osodwyd ar ein cyfer am 2021-22. Mi fydd yr adran yn parhau gyda'r nod i gyflwyno'r gwasanaeth gorau i drigolion Gwynedd.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid (Barn ar Adroddiad Priffyrdd a Bwrdeistrefol) :**

Gallaf gadarnhau fod yr wybodaeth a gyflwynir ym mharagraff 4.2 o'r adroddiad, am y sefyllfa ariannol, yn adlewyrchiad teg a chywir o'r hyn adroddwyd eisoes i'r Cabinet yn dilyn yr adolygiad ariannol o'r sefyllfa ar ddiwedd mis Awst. Mae gan yr Adran rai cynlluniau arbedion sydd wedi profi yn gymhleth i'w cyflawni, a chytunaf fod hyn yn faich ar y gyllideb refeniw. Mae'r pryderon ariannol yma wedi derbyn sylw mewn cyfarfod rhwng yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, yr Adran Gyllid a'r Prif Weithredwr yn ddiweddar.

Y Pennaeth Cyllid (Barn ar Adroddiad Ymgynghoriaeth Gwynedd) :

Gallaf gadarnhau fod cynnwys Rhan 5 o'r adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol YGC.

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **21 RHAGFYR 2021** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Gareth Wyn Griffith** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Dafydd Wyn Williams - Pennaeth Adran yr Amgylchedd** |
| **Rhif Cyswllt:** | **32371** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD HERIO PERFFORMIAD AELOD CABINET AMGYLCHEDD** |

---

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol

---

**1. CYFLWYNIAD YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Amgylchedd. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Hoffwn eich atgoffa bod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod o Dîm Rheoli'r Adran Amgylchedd, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau.

1.3 Ar y cyfan, rwyf yn fodlon gyda perfformiad yr adran dan yr amgylchiadau, ac yn cydnabod yr heriau sydd yn parhau i wynebu'r adran ers y flwyddyn ddiwethaf a'r effaith y mae hynny wedi'i gael ar rai gwasanaethau. Fodd bynnag, rwy'n hyderus fod yr adran yn cadw golwg ar y materion hyn ac yn cynllunio'n briodol ar gyfer adfer y sefyllfa. Byddaf yn ymhelaethu ar y cynnydd yn yr adroddiad.

## 2. BLAENORIAETHAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023

2.1 **Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd**

Yn dilyn penderfyniad y Cabinet yn ôl ym mis Ionawr i ariannu rheolwr prosiect i arwain ar y gwaith o gydlynu ymdrechion y cyngor yn y maes a'r cynllun gweithredu, mae Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd wedi cychwyn yn y rôl ddechrau Gorffennaf eleni. Mae rhaglen waith ar wedi ei ddatblygu ac mae cyfarfodydd o'r Bwrdd Newid Hinsawdd yn cael eu cynnal i lywio'r gwaith ar gyfer cynhyrchu'r Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd. Bwriedir hefyd cynnal sesiynau gyda holl Aelodau'r Cyngor er mwyn iddynt gael eu mewnbwn i'r gwaith.

2.2 Y bwriad yw y bydd dau ran i'r Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd, gyda'r rhan cyntaf yn canolbwyntio ar yr effaith uniongyrchol mae'r Cyngor yn ei gael ar newid hinsawdd, gyda'r rhan yma wedi ei fabwysiadu erbyn diwedd Mawrth 2022. Bydd yr ail ran o'r Cynllun yn canolbwyntio'n fwy ar y camau pellach y gall y Cyngor eu cymryd i gyfrannu tuag at lliniaru effeithiau newid hinsawdd, gyda hyn yn digwydd yn ystod 2022/23.

2.3 **Capasiti Gwarchod y Cyhoedd**

Mae'r adran wedi datblygu cynlluniau ar gyfer ceisio darparu gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd mwy gwydn ar gyfer y dyfodol er mwyn cyfrannu tuag at warchod iechyd cymunedau Gwynedd a chefnogi busnesau. Mae'r Adran wedi cynnal adolygiad o'r strwythurau staffio'r Gwasanaethau Gwrachod y gyda'r amcan o geisio cadw'r arbenigedd sydd gennym, creu strwythurau staffio mwy cadarn fydd angen cynnwys parhad o'r gwaith olrhain, cynyddu capasiti, a chynllunio ar gyfer dilyniant i'r dyfodol. Mae'r Adran hefyd gyda chynlluniau ariannol sydd yn mynd law yn llaw gyda'r gweithredu sydd ei angen yn sgil adolygu'r strwythurau staffio, ac mae hyn yn cynnwys cyflwyno bidiau refeniw i gronfa trawsffurfio'r Cyngor.

2.4 **Rheolaeth Cartrefi Modur**

Mae'r adran wedi bod yn arwain ar ddarn o waith ar y cyd gyda'r Adran Economi a Chymuned, i geisio ymateb i'r heriau mae'r cynnydd sylweddol yn y nifer o gartrefi modur sydd yn ymweld â'r sir wedi eu cyflwyno dros y flwyddyn a hanner diwethaf. Yn ogystal ag ymatebion byr dymor i'r heriau (e.e. gorfodaeth lle'n bosib, codi arwyddion mewn lleoliadau ar draws y Sir, cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth), mae gwaith ymchwil i'r sector cartrefi modur wedi ei gynnal er mwyn ceisio edrych ar angen ai peidio am ymatebion fwy hir dymor i gael rheolaeth gwell. Cyflwynwyd y gwaith ymchwil i'r Cabinet ar y 9 Tachwedd 2021 pryd penderfynwyd:

i. Awdurdodi'r Pennaeth Adran Amgylchedd mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Adran Economi a Chymuned i gynnal prosiect peilot ar gyfer defnydd o hyd at 6 o safleoedd parcio'r Cyngor (neu ran o'r safleoedd) sydd o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd, er darparu cyfleusterau i gartrefi modur aros dros nos ac i gynnwys dynodi'r lleoliadau, ond yn ddarostyngedig i sicrhau cyllid cyfalaf a'r caniatâdau angenrheidiol.
ii. Bod adroddiad pellach ar ganlyniadau'r peilot yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ymhen tair blynedd.
iii. Ystyried a gweithredu ar fesurau gorfodaeth i fynd law yn llaw gyda'r uchod.
iv. Cyflwyno'r gwaith ymchwil i Llywodraeth Cymru a gofyn iddynt Adolygu'r Ddeddf Carafanau a Rheoli Datblygu 1960.

2.5 Mae'r Adran nawr wedi sefydlu Bwrdd Prosiect i weithredu'r penderfyniad.

## 3. PERFFORMIAD

Isod, rwy'n amlinellu'r prif faterion sydd yn deillio o berfformiad yr adran yn y cyfnod ers dechrau Gorffennaf 2021/22. Nid yw'r wybodaeth yn cyfeirio at bob gwasanaeth yn yr adran, dim ond y rhai hynny y teimlwn fod angen tynnu eich sylw atynt.

**Gwasanaeth Cynllunio**

3.1 Nid oes modd i mi adrodd ar ein mesurydd arferol sy'n dangos ***bodlonrwydd gyda'r gwasanaeth*** (C1). Mae hyn oherwydd nad yw'r holiaduron gofal cwsmer wedi eu cynnal ers dechrau cyfnod y pandemig gan ein bod wedi blaenoriaethu parhad gwasanaethau ddydd i ddydd. Yn arferol mae'r gwaith ar gyfer hyn yn cael ei gynnal drwy alwadau ffôn, ond mae trafodaethau'n parhau gyda darparwyr y system swyddfa gefn y Gwasanaeth i'r holiaduron gael eu hwyluso'n awtomatig drwy'r system.

3.2 Soniwyd yn Adroddiad Blynyddol 2020/21 yr Adran ac yn fy adroddiad i'r Cabinet ym mis Medi 202, ei bod wedi bod yn cymryd mwy o amser i ni gyrraedd penderfyniadau o ganlyniad i ffactorau amrywiol gan gynnwys effaith y pandemig ar bwyllgorau, diffyg capasiti oherwydd salwch hirdymor, trefniadau gweithio'n ystod yr argyfwng ac oedi mewn derbyn ymatebion gan ymgynghorai statudol. Mae'r mesurydd ***Pa mor sydyn mae'r holl geisiadau Cynllunio ar gyfartaledd wedi cymryd i'w penderfynu*** (C2) yn parhau i gynyddu ac yn uwch na'r cyfartaledd o 63 diwrnod yn 2018/19, 68 diwrnod yn 2019/20, 88 diwrnod yn 2020/21, gyda'r cyfartaledd ers ar gyfer 2021/22 yn 94 diwrnod. Er hyn, a heb gynnwys mis Awst, mae cynnydd wedi bod yn faint o geisiadau cynllunio sydd yn cael eu penderfynu ers i mi adrodd i chi ym mis Medi, wrth i swyddogion ddod yn ôl ar ôl cyfnodau o salwch, ond mae hyn yn rhy fuan o safbwynt dylanwadu'n gadarnhaol ar y perfformiad. Hefyd, mae'r adran wedi recriwtio swyddog cynllunio dros dro am gyfnod o flwyddyn i helpu gyda'r gwaith yma, ac rwyf wedi gofyn i'r Adran edrych ar yr adnoddau fydd eu hangen i'r dyfodol ar gyfer cwrdd â'r galw am y gwasanaeth.

3.3 Yn ystod y cyfnod o 01/07/21 i 31/10/21, derbyniodd yr Uned Gorfodaeth Cynllunio 117 o **achosion gorfodaeth newydd** yn ymwneud a tor-rheolaeth cynllunio gyda'r cyfanswm ers 1 Ebrill 2021 yn 207. Yn ystod y cyfnod adrodd ymchwiliwyd 20 o'r achosion newydd a chafodd 79 o achosion eu cau. Mae'r gostyngiad yng nghapasiti'r Uned o 4 i 2 swyddog, yn ogystal â'r amser mae'n gymryd i ddelio gydag achosion cymhleth yn ei gwneud yn heriol iawn i'r Uned ymdopi gyda'r llwyth gwaith, sydd yn creu ôl-groniad o achosion sydd yn parhau'n agored tra mae achosion newydd yn parhau i ddod i mewn. Er mwyn ceisio ymateb i hyn cyflogwyd swyddog dros dro ym mis Mai 2021 ac yn dilyn cyfnod o fewn y tîm cefnogol (Gwasanaeth Busnes yr Adran), trosglwyddwyd y swyddog i'r tîm gorfodaeth ym mis Awst 2021. Rwyf wedi gofyn i'r Adran edrych ar gynlluniau hefyd i ymateb i ofynion byr a hir dymor y Gwasanaeth Cynllunio a safbwynt y gwaith gorfodaeth.

**Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd**

3.4 Rwyf yn falch adrodd fod y gwaith ymchwil mae'r Gwasanaeth yma wedi arwain arno sef "Rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau" yn ddarn o waith arwyddocaol sydd wedi ysgogi trafodaethau ac ymateb ar lefel genedlaethol i'r materion o gwmpas cartrefi gwyliau, gyda hyn nawr yn cael ei weld mewn cyfres o ymgynghoriadau gan Llywodraeth Cymru.

3.5 Mae'r Gwasanaeth wedi cwblhau'r trydydd Adroddiad Monitro Blynyddol (2020/21) ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sydd wedi ei gyflwyno i Llywodraeth Cymru (ynghyd ac Adroddiad 2019/20) ers Hydref 2021. Mae'r tri Adroddiad Monitro Blynyddol sydd wedi eu paratoi yn cynnwys tystiolaeth pwysig sydd yn bwydo i mewn i'r adolygiad statudol o'r Cynllun sydd wedi cychwyn ers Awst 2021. Yn ystod Tachwedd 2021,cychwynnwyd ar gyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus o 6 wythnos ar yr Adroddiad Adolygu (yn sgil adolygiad o'r Cynllun cyfredol), a chynhaliwyd sesiynau codi ymwybyddiaeth ar gyfer holl Aelodau'r Cyngor i gyd-fynd gyda hyn.

**Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu**

3.6 Yn ystod cyfnod adrodd yma 2021/2022 gwelwyd cynnydd mewn ceisiadau rheolaeth adeiladu, gyda 302 o geisiadau'n cael eu cyflwyno o'i gymharu â 241 yn yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn golygu cynnydd yn y ffioedd sy'n cael eu denu i'r cyngor. Fodd bynnag, mae'r prosiectau arwyddocaol, sy'n codi mwy o ffi, yn parhau i fod yn isel. Mae Arolygydd Cymeradwy preifat wedi'i sefydlu yn y sector yn ddiweddar ac felly mae'r gystadleuaeth leol wedi cael effaith negyddol ar y nifer o geisiadau sy'n ein cyrraedd ni. Mae hyn yn golygu bod cyfran y farchnad o geisiadau rheolaeth adeiladu a dderbyniwyd wedi gostwng o **85%** yn 2020/2021 i **77%** ar hyn o bryd. Nodir hefyd yn ystod y misoedd diwethaf fod tystiolaeth o'r Gwasanaeth yn colli swyddogion i'r sector breifat, ac yn sgil hyn mae'r adran yn edrych ar strwythur y Gwasanaeth o ran gwydnwch, a natur y gwaith o ran gwaith sydd yn denu ffioedd a gwaith sydd ddim (e.e. gwaith gorfodaeth)

3.7 Oherwydd yr heriau o ran capasiti, mae'r canran o benderfyniadau a wnaethpwyd i'r amserlen statudol ar gyfer y cyfnod yma wedi lleihau i 91.25% o'i gymharu 97.5% adroddwyd i chi'n Medi 2021 (sef Chwarter 1. Mae trefniadau dros dro mewn lle i geisio cyfarch y diffyg capasiti, ond rwyf yn parhau'n awyddus i'r Adran edrych ar gynlluniau cynlluniau hir dymor.

3.8 Mae'r amser a gymerir ar gyfartaledd i brosesu cais 'Enwi a rhifo tai/stryd' wedi gostwng eto, gan gymryd 7 diwrnod ar gyfartaledd yn ystod y cyfnod yma, o'i gymharu ac 8 diwrnod yn Chwarter 1 2021/22 ac 21 diwrnod ar gyfartaledd yn ystod 2020/21. Mae hyn o ganlyniad i welliannau i'r system ac yng nghyflymder ymatebion ymgynghori'r Post Brenhinol wrth gadarnhau cofrestriad.

**Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd**

3.9 Oherwydd ymdrechion y gwasanaeth yma i ymateb i'r pandemig, nid yw'r gwaith o fesur y ***canran o gwsmeriaid a ymatebodd i arolwg yn dweud eu bod yn fodlon a'r lefel gwasanaeth*** wedi'i gwblhau'n ddiweddar. Yn arferol mae'r gwaith ar gyfer hyn yn cael ei gynnal drwy alwadau ffôn, ond mae trafodaethau'n parhau gyda darparwyr y system swyddfa gefn y Gwasanaeth i'r holiaduron gael eu hwyluso'n awtomatig drwy'r system.

3.10 Mae'r archwiliadau hylendid a safonau bwyd y Cyngor wedi ail gychwyn ers 1 Medi 2021, gan flaenoriaethu busnesau newydd a busnesau risg uchel yn y lle cyntaf yn unol â chyfarwyddyd Cynllun Adfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae Cynghorau Cymru wedi cytuno gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd y byddent yn ymdrechu i ddilyn eu cynllun adfer diogelwch bwyd, wrth i'r gofyn ar wasanaethau gwarchod y cyhoedd mewn perthynas â gwaith cofid lleihau dros amser.

3.11 Ar y 1/10/21 roedd 2132 o fusnesau bwyd yng Ngwynedd yn destun y drefn sgorio hylendid bwyd. O'r rhain roedd 2117 yn cyrraedd safon hylendid bwyd boddhaol neu uwch (99.3%) a 15 ddim yn cwrdd ar safonau (0.7%). Dylid nodi fod y rhaglen archwiliadau hylendid bwyd i bob pwrpas wedi ei atal ers canol Mawrth 2020 hyd fis Medi eleni a'r hyn sydd yn golygu ôl groniad o archwiliadau sydd heb eu gwneud.

3.12 Ers i'r rhaglen archwiliadau ail ddechrau ym mis Medi 2021 mae ¾ o'r tîm bellach yn canolbwyntio ar waith diogelwch bwyd tra bod cyfystyr a gwerth 3 .5 FTE swyddog dal i ganolbwyntio yn llwyr ar waith cofid. Allan o'r 1679 o archwiliadau hylendid bwyd hwyr / wedi cronni cwblhawyd 137 o archwiliadau, ac allan o'r 826 o archwiliadau safonau bwyd hwyr / wedi cronni cwblhawyd 157 o archwiliadau.

3.13 Gwelwyd lleihad yn **yr amser a gymerir ar gyfartaledd i brosesu cais am drwydded tacsi** o 15 diwrnod yn Chwarter 1 2021/22 i 7 neu 8 diwrnod yn ystod y cyfnod yma. Mae hyn o ganlyniad i nifer o resymau'n cynnwys lleihad yn yr oedi oedd yn arfer bod i unigolion geisio cael tystysgrif archwiliad meddygol, datgeliad a thystysgrifau DBS. Mae yna salwch hir dymor yn yr Uned Drwyddedu a hynny ar drothwy cyfnod lle mae'r cylch adnewyddu trwyddedau tacsi ac felly rwyf wedi gofyn i'r Adran gadw golwg ar y sefyllfa.

**Gwasanaeth Rheoli Rhwydwaith**

3.14 Mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am weithredu trefniadau gorfodaeth parcio ar draws y Sir ac mae'r cynnydd ymwelwyr ddaru benderfynu aros ym Mhrydain yn hytrach nag mentro dramor am wyliau wedi uchafu'r holl broblemau yn nhermau prinder llecynnau parcio ledled y Sir, diffyg pwerau ychwanegol i ymdrin â cherbydau sydd yn creu rhwystr a rheolaeth o gartrefi modur. Ers dechrau 2021/22 mae'r gwasanaeth wedi cyflogi 3 swyddog ychwanegol dros dro er mwyn cefnogi'r tîm drwy gyfnod oedd yn anarferol o brysur. Mae'r mesurydd ar gyfer parcio yn ymwneud a ***nifer o apeliadau a gyflwynwyd i'r beirniaid annibynnol sydd yn cael eu caniatáu***. Rwyf yn falch o adrodd fod y nifer apeliadau o'r math hwn wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf, a chadarnhaf fod tri achos wedi cyrraedd y pwynt yma yn ystod 2021/22 hyd yn hyn, a chanlyniad dau yn ffafriol i'r Cyngor. Derbyniwyd 2 achos yn ystod 2019/20 gyda un yn ffafrio'r Cyngor.

3.15 Wrth i'r nifer o gerbydau sydd ar ein ffyrdd gynyddu, mae'n holl bwysig fod mesurau addas a phriodol yn bresennol ac yn cael eu monitro'n gyson er mwyn rheoli llif traffig a chadw'r rhwydwaith mor ddiogel a dirwystr a phosibl. Caiff gwaharddiadau a chyfyngiadau traffig sydd yn ymwneud a pharcio, cyflymder, trefniadau unffordd, cyfyngiadau pwysau a chlirffyrdd eu gorchuddio gan orchymyn swyddogol a chyfreithiol. Gwerthfawrogwn fod yr egwyddor du ôl i baentio llinellau melyn ar y briffordd yn swnio fel tasg digon syml heb gymhlethdodau, ond mewn gwirionedd, gall sawl ffactor ddylanwadu a chreu oedi yn y broses ac mewn rhai amgylchiadau mae gorchymyn wedi cymryd hyd at 12 mis i fod yn weithredol. Mae unrhyw gais angen mynd drwy broses gyfnod ymgynghori statudol o 28 diwrnod ac mae angen i'r gwasanaeth traffig fod yn rhoi sylw ystyrlon i unrhyw wrthwynebiad. Mae oedi pellach wedi digwydd dros y cyfnod yma o ganlyniad i lwyth gwaith neu ddiffyg adnoddau yn yr Adran Gyfreithiol.

**Gwasanaeth Cludiant a Diogelwch y Ffyrdd**

3.16 Mae'r cyfnod adfer o'r pandemig wedi profi heriau ychwanegol i'r gwasanaethau cludiant cyhoeddus a chwmnïau bysiau, gyda'r angen i gadw at gyfyngiadau ar y niferoedd all deithio ar fws yn ogystal ag angen i gadw ffenestri yn agored a gwisgo gorchudd wyneb. Yn ystod y cyfnod adroddir arno mae'r sylwadau a dderbynnir o ran bodlonrwydd defnyddwyr cludiant cyhoeddus yn amlygu materion yn ymwneud a diffyg gwasanaeth ar lwybrau penodol, a hynny oherwydd phrinder gyrwyr neu wasanaeth masnachol yn dod i ben. Mae'r Adran yn cydweithio gyda darparwyr Cludiant Cyhoeddus yn ogystal â chyrff eraill i geisio ymateb i unrhyw bryder neu rwystr sy'n codi, er enghraifft, drwy drefnu gwasanaeth ar alw neu sefydlu gwasanaeth newydd.

**Gwasanaeth Cefn Gwlad**

3.17 Mae'r gwaith yn parhau i ddatblygu mesuryddion ar gyfer meysydd gwaith Mynediad a Bioamrywiaeth. Er mwyn llywio gwaith y Gwasanaeth am y blynyddoedd nesaf mae dogfennau strategol canlynol yn cael eu paratoi:

- Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT)- derbyniodd y Pwyllgor Craffu 4 Tachwedd ddrafft terfynol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

- Cynllun Adfer Natur - mae disgwyl bod cyrff cyhoeddus yn paratoi cynllun Adfer Natur mewn ymateb i golled mewn cynefinoedd a bioamrywiaeth a'r camau gallent eu cymryd i atal dirywiad pellach ac adfer y sefyllfa. Bydd y cynllun yn cael ei gwblhau yn ystod 2022.

3.18 Gwelwyd pwysau ar y Gwasanaeth o sawl cyfeiriad yn ystod 2021.

- Roedd cynnydd yn nifer ceisiadau Cynllunio yn ystod haf 21 wedi rhoi pwysau ychwanegol ar y tîm Bioamrywiaeth. Mae'n angenrheidiol fod swyddogion yn rhoi sylwadau ar effaith datblygiadau ar fioamrywiaeth a rhywogaeth sy'n cael eu diogelu. Yn ogystal â nifer y ceisiadau gwelwyd sawl cais cymhleth a cynhennus. Cymrwyd y camu canlynol i leihau'r pwysau:

  i. trefniant dros dro wedi ei sefydlu gyda chwmnïau profiadol iddynt baratoi sylwadau ar rhai ceisiadau cynllunio.

  ii. Defnyddir tanwariant yr Adran i gyflogi swyddog bioamrywiaeth dros dro.

- Bydd effaith y camau uchod yn cael eu monitro dros y misoedd nesaf.

3.19 Mae argaeledd grantiau tuag at feysydd gwaith y Gwasanaeth wedi cynyddu'n yn ystod 2021 yn bennaf gan Lywodraeth Cymru. Er enghraifft am y blynyddoedd 20/21 a 21/22, derbyniwyd yn agos i £400k ar gyfer gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy a swm cyffelyb uwchraddio'r Lonydd Glas gyda £130k o'r rhaglen Llefydd Lleol i Natur. Y rhagdybiaeth ydi bydd y grantiau yn parhau am y blynyddoedd nesaf sy'n codi cwestiwn ynglŷn â capasiti presennol y Gwasanaeth i fanteisio a gwneud y defnydd gorau o'r grantiau gan ystyried bod swyddogion hefyd yn ymateb i faterion dydd i ddydd. Mae'r Adran wedi cyflwyno cais i'r Gronfa Trawsnewid am gyllid i gefnogi swydd "Swyddog Prosiectau" i fod yn gyfrifol am ddatblygu, gweinyddu a gweithredu rhaglenni grant.

3.20 **Newid hinsawdd** - mae yna berthynas agos rhwng y gwaith o baratoi'r Cynllun Newid Hinsawdd a dyletswyddau ym maes Bioamrywiaeth yn enwedig wrth ystyried cyfraniad coetiroedd a thiroedd eraill Y Cyngor i amsugno carbon. Serch hynny, roedd yn amlwg nad oedd y wybodaeth yma ar gael a bod angen mynd ati i fesur gwerth tiroedd y Cyngor a sut gellir eu rheoli'n well. Er mwy'n cwrdd â'r her yma mae'r Adran wedi cyflwyno cais i'r gronfa Trawsnewid am swyddog o fewn y tîm Bioamrywiaeth.

**Gwasanaeth Olrhain**

3.21 Mae'r broses recriwtio staff wedi bod yn heriol. Hyn yn benodol gan fod y gwasanaeth yn cael ei gydlynu ar lefel rhanbarthol/cenedlaethol ac yn cael ei arwain [lletya] gan awdurdod arall, a oedd yn golygu nad oedd gan y Gwasanaeth POD yma yng Ngwynedd reolaeth llawn dros yr ymgyrch recriwtio. Mae'r sefyllfa yma wedi gadael y gwasanaeth yn fregus o ran cael niferoedd digonol o staff i ymateb i'r argyfwng. Yn dilyn trafodaethau diweddar gyda'r awdurdod cynnal yma yn y Gogledd, mae Cyngor Gwynedd bellach wedi uchafu ei rôl ac yn cymeryd rhan blaenllaw yn y broses. Rydym hefyd yn parhau i dderbyn cymorth gan swyddogion o Adrannau eraill

y Cyngor sydd wedi eu trosglwyddo i'r gwasanaeth ar sail dros dro. Mae'r gwasanaeth yn datblygu yn gyson, ac yn mynd yn fwy digidol a fydd, yn y pendraw, yn golygu y bydd angen llai o adnodd staff i'w redeg.

**4. SEFYLLFA ARIANNOL/ARBEDION – AROS YR UN FATH**

4.1 Bu i'r Adran Amgylchedd danwario £100k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2020/21. Bydd adolygiad manwl o sefyllfa ariannol yr adran yn cael ei gynnal fel rhan o'r adolygiad refeniw ddiwedd Tachwedd ar gyfer y Cyngor gyfan, ac fe adroddir i'r cabinet maes o law. Ni ragwelir unrhyw faterion materol i'w hadrodd hyd yn hyn.

4.2 Mae gan yr adran 3 cynllun arbedion ar gyfer 2021/22 yn ogystal â 2 gynllun ychwanegol sy'n parhau o flynyddoedd blaenorol oherwydd oediad. Mae rhain ar hyn o bryd unai wedi eu gwireddu neu ar drac i'w gwireddu cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

4.3 Gobeithiaf allu cadarnhau fod y cynlluniau hyn yn symud yn eu blaen yn fy adroddiad nesaf

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Pennaeth Cyllid:**

"Gallaf gadarnhau fod yr hyn a nodir yn Rhan 4 o'r adroddiad yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa ariannol. Bydd adolygiad o'r gyllideb refeniw hyd at ddiwedd Tachwedd ynghyd â'r sefyllfa o safbwynt arbedion yn cael ei adrodd i'r Cabinet ar 18 Ionawr.

---

Eitem 10

# BLAENRAGLEN WAITH

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| Dyddiad trafodaeth yn y Cabinet | Eitemau i'w trafod | Aelod Cabinet |
|---|---|---|
| **Chwarter 4 2021/22**<br>**1 Ionawr – 31 Mawrth** | | |
| **18 Ionawr** | Adroddiad Perfformiad Adran Addysg | Cyng. Cemlyn Williams |
| | Adroddiad Perfformiad yr Adran Gyllid | Cyng. Ioan Thomas |
| | Cyllideb Refeniw 2021/22 – Adolygiad diwedd Tachwedd 2021 | Cyng. Ioan Thomas |
| | Rhaglen Gyfalaf 2021/22 – Adolygiad diwedd Tachwedd 2021 | Cyng. Ioan Thomas |
| | Trosolwg Arbedion – Adroddiad Cynnydd ar wireddu Cynlluniau Arbedion | Cyng. Ioan Thomas |
| **15 Chwefror** | Adroddiad Perfformiad Adran Economi a Chymuned | Cyng. Gareth Thomas |
| | Adroddiad Perfformiad Adran Cefnogaeth Gorfforaethol | Cyng. Nia Jeffreys |
| | Cynllun y Cyngor Adolygiad 2022/23 | Cyng. Dyfrig Siencyn |
| | Deddfwriaeth a Pholisi Cynllunio ar gyfer Ail Gartrefi a Llety Gwyliau Tymor Byr | Cyng. Gareth Griffith |
| | Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg | Cyng. Craig ab Iago |
| | Cyllideb 2022/23 | Cyng. Ioan Thomas |

| Dyddiad trafodaeth yn y Cabinet | Eitemau i'w trafod | Aelod Cabinet |
|---|---|---|
| | Strategaeth Cyfalaf 2022/23 (yn cynnwys Strategaethau Buddsoddi a Benthyg) | Cyng. Ioan Thomas |
| | Blaen raglen y Cabinet | Cyng. Dyfrig Siencyn |
| **8 Mawrth** | Effaith Covid ar Gyllideb 2022/23 Cwmni Byw'n Iach | Cyng. Ioan Thomas a'r Cyng. Gareth Thomas |
| | | |
| **29 Mawrth** | Adroddiad Blynyddol y Panel Rhiant Corfforaethol | Cyng. Dilwyn Morgan |
| | Adroddiad Blynyddol y Panel Strategol Diogelu | Cyng. Dilwyn Morgan |
| **Ebrill 2022 yn unig**<br>***Diwedd y Cyngor presennol ar 30/04/2021** | | |
| **19 Ebrill** | | |